



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau

Canllawiau Statudol ar gyfer Darparu
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

www.cymru.gov.uk



Hydref 2014

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	3
2. Cyd-destun a Chwmpas Dyletswyddau'r Ddeddf Teithio Llesol	5
Dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol	5
Ble fydd y dyletswyddau'n berthnasol	5
Y diffiniad o Deithio Llesol	6
Y diffiniad o Deithiwr Llesol	6
Ariannu	7
Teithio Llesol ac Awdurdodau Cynllunio	8
Dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol eraill	9
Monitro ac adrodd	10
3. Paratoi'r Mapiau	11
Rhagarweiniad	11
Arolwg Cenedlaethol a Rheoli Data	11
Yr Arolwg Cychwynnol	12
System Rheoli Data	12
Cynnwys y map llwybrau presennol	13
Paratoi Datganiad	14
Mapiau rhwydwaith integredig	15
Dogfennau a ffynonellau gwybodaeth	15
Fformat y mapiau	17
Llwybrau nad ydynt yn berchen i'r awdurdod lleol	18
Ymgynghori ac ymgysylltu	18
Cymeradwyo'r mapiau	19
Adolygu'r mapiau	20
Dyletswyddau adrodd	21
4. Cyhoeddi'r mapiau	22
Y gofynion i gyhoeddi	22
Cyhoeddi'r mapiau, datganiad ac eglurhad	22
5. Sicrhau gwelliannau parhaus i lwybrau teithio llesol a chyfleusterau	23
Gwneud a blaenoriaethu gwelliannau	23
Cynnwys tîrfeddianwyr	24
6. Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau priffyrdd penodol	25
7. Dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol	27
Atodiad A: Pwerau a Dyletswyddau a grëwyd gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013	29
Atodiad B: Yr ardaloedd ble bydd y dyletswyddau hyn yn berthnasol	32
Atodiad C: Nodweddion i'w dangos ar y map llwybrau presennol	49

1. Rhagarweiniad

Crynodeb Gweithredol

Mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno'r prosesau a'r gweithdrefnau y dylai awdurdodau lleol eu dilyn i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Mae Pennod 1 yn rhoi'r cyd-destun polisi ar gyfer y Ddeddf a'r ddogfen ganllawiau hon.

Mae Pennod 2 yn nodi gofynion y Ddeddf yn fwy manwl. Mae'n nodi'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol, a chymhwysiad daearyddol y dyletswyddau hyn. Yn y bennod hon rhoddir diffiniadau manwl o deithio llesol, llwybr teithio llesol a theithiwr llesol. Mae Pennod 2 yn cynnwys gwybodaeth am ffynonellau ariannu. Mae hefyd yn rhoi dyletswyddau Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yng nghyd-destun dyletswyddau statudol eraill, gan gynnwys cynllunio a chhydraddoldeb. Mae'r bennod hon hefyd yn nodi gofynion adrodd y Ddeddf.

Ym Mhennod 3 trafodir y gwaith o baratoi'r mapiau llwybrau presennol, y datganiad a'r eglurhad cysylltiedig, a'r mapiau rhwydwaith integredig. Mae'n cynnwys manylion am y system rheoli data genedlaethol a'r arolwg cychwynnol i boblogi'r system. Mae'r bennod hon hefyd yn nodi beth ddylai'r mapiau, y datganiad a'r eglurhad ei egluro, y canllawiau ar fformat y mapiau, y gofynion ymgynghori a'r trefniadau ar gyfer cymeradwyo a'r broses o ddiwygio'r mapiau.

Ym Mhennod 4, eglurir y gofynion i gyhoeddi'r mapiau a'r dulliau o gyhoeddi'r mapiau ynghyd â'r datganiad a'r eglurhad.

Mae Pennod 5 yn nodi'r ddyletswydd i wneud gwelliannau parhaus. Mae'n rhoi diffiniad o welliant parhaus ac yn egluro sut fydd y ddyletswydd hon yn cael ei monitro. Mae'n rhoi cyngor ar flaenoriaethu buddsoddiadau ac ar weithio gyda thirfeddianwyr i greu seilwaith teithio llesol gwell.

Ym Mhennod 6 eglurir effaith y gofynion i ddarparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth ddarparu swyddogaethau priffyrdd a thraffig ffyrdd penodol. Mae'r adran hon yn anstatudol, ond mae wedi'i chynnwys i roi cyngor ar gwrdd â'r dyletswyddau hyn.

Mae Pennod 7 yn egluro'r ddyletswydd i hyrwyddo teithio llesol wrth ddarparu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae'n rhoi enghreifftiau o sut i gwrdd â'r ddyletswydd hon.

Yn Atodiad A rhoddir rhestr o'r dyletswyddau a'r pwerau a grewyd gan y Ddeddf.

Atodiad B yw'r Cyfarwyddyd ar ardaloedd dynodedig, sy'n penderfynu pa ardaloedd y mae'r Ddeddf yn effeithio arnynt.

Mae Atodiad C yn nodi'r nodweddion sydd i'w dangos ar y map llwybrau presennol.

Pwrpas Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

1.1 Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (y cyfeirir ati fel y Ddeddf yn y ddogfen hon) yw gwneud teithio llesol yr opsiwn mwyaf deniadol ar gyfer y rhan fwyaf o siwrneiau byr. Ei phwrpas yw helpu i sicrhau bod mwy o bobl yn teithio'n llesol, fel bod mwy o bobl yn gallu mwynhau manteision teithio llesol. Rydym am annog pobl i adael eu ceir ar ôl a dewis teithio'n llesol lle bynnag y mae'n addas iddynt wneud hynny.

1.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi beth yw amcanion cyffredinol Llywodraeth Cymru am y tymor hwn. Bydd cynyddu cyfraddau cerdded a beicio'n cyfrannu'n uniongyrchol at amcanion y Llywodraeth ac yn adlewyrchu sut y rhoesom ddatblygu cynaliadwy, fel ein prif egwyddor drefniadol, wrth galon y llywodraeth.

1.3 O dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau teithio llesol a darparu gwelliannau o un flwyddyn i'r llall i lwybrau chyfleusterau teithio llesol. O dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau priffyrdd yng Nghymru wneud gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau ar gyfer beicwyr a cherddwyr fel rhan o bob cynllun ffordd newydd a rhoi sylw i anghenion y bobl hyn wrth arfer ystod o swyddogaethau awdurdod priffyrdd eraill. Rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol hefyd hyrwyddo siwrneiau llesol wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon. Mae testun llawn y Ddeddf ar gael yn: www.legislation.gov.uk/anaw/2013/7/contents/enacted

1.4 Awgryma'r dystiolaeth mai'r prif resymau pam nad yw pobl yn dewis teithio llesol yw diogelwch, ymarferoldeb a chonfensiynau diwylliannol. Anelir darpariaethau'r Ddeddf at fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau hyn drwy wneud y seilwaith yn fwy diogel i bobl ei ddefnyddio a thrwy roi gwybod iddynt ble fyddai'n addas iddynt gerdded a beicio.

1.5 Cyhoeddir y canllawiau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 3(4), 4(5), 5(2) a 7(2) y Ddeddf. Er mwyn hwylustod, drwy gydol y ddogfen hon byddwn yn cyfeirio atynt fel y Canllawiau Darparu neu 'y canllawiau hyn'. Mae'r Canllawiau Darparu'n un o ddwy ddogfen ganllawiau a gyhoeddir o dan y Ddeddf: Y ddogfen ganllawiau arall yw'r Canllawiau Dylunio sy'n ymdrin â'r safonau technegol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol. Bydd y Canllawiau Dylunio'n hanfodol i helpu awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr yn briodol ar gyfer teithio llesol neu beidio, a pha gamau y dylid eu cymryd i wella'r llwybrau hyn.

1.6 Mae'r ddogfen felly'n croesgyfeirio drwyddi at adrannau perthnasol yn y Canllawiau Dylunio.

1.7 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r Canllawiau Dylunio wrth arfer y swyddogaethau sy'n berthnasol i'r canllawiau. Dylid cymryd pob cyfeiriad at awdurdodau lleol yn y canllawiau hyn fel cyfeiriadau at gynghorau sir neu fwrdeistref sirol. Mae'r dyletswyddau o dan y Ddeddf yn berthnasol i'r awdurdod lleol yn gyffredinol, yn hytrach nag i ran benodol o'r awdurdod lleol. Felly anelir y canllawiau hyn at bob rhan o'r awdurdod lleol, nid dim ond at yr awdurdod priffyrdd lleol. Lle rhoddir canllawiau yng nghyswllt adrannau 9 a 10 y Ddeddf, canllawiau cynghori ac anstatudol ydynt (penodau 6 a 7 yn y canllawiau hyn). Mae gweddill y canllawiau (Penodau 1-5 a'r Atodiadau) yn statudol eu natur.

1.8 Bydd rhannau o'r Canllawiau Darparu'n berthnasol i Weinidogion Cymru, sydd hefyd â dyletswyddau o dan y Ddeddf, ac i bartneriaid darparu eraill. Fodd bynnag, y brif gynulleidfa yw swyddogion awdurdod lleol yn yr adrannau trafniadaeth, hawliau tramwy, gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth, addysg, iechyd, cynlluniau a meysydd eraill yn ymwneud â theithio llesol.

1.9 Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau ar sail adborth gan awdurdodau lleol ar eu profiad o weithredu'r dyletswyddau hyn o dan y Ddeddf a pha mor ddefnyddiol oedd y canllawiau hyn i'w helpu i wneud hynny. Gallwch anfon sylwadau a barn am y canllawiau hyn i activetravel@wales.gsi.gov.uk.

2. Cyd-destun a chwmpas y dyletswyddau teithio llesol

Y Dyletswyddau sydd gan Awdurdodau Lleol

2.1 Mae'r Ddeddf yn darparu:

- bod awdurdodau lleol yn cynhyrchu mapiau o'r llwybrau teithio llesol presennol, a'r cyfleusterau cysylltiedig, sydd yn eu hardaloedd (y map llwybrau presennol) ac yn cyflwyno'r mapiau hyn i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o fewn amserlen benodedig;
- bod awdurdodau lleol yn cynhyrchu mapiau o'r llwybrau teithio llesol gwell a newydd, a'r cyfleusterau cysylltiedig, sydd eu hangen i greu rhwydweithiau teithio llesol integredig yn eu hardaloedd (y map rhwydwaith integredig) ac yn cyflwyno'r mapiau hyn i'w cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o fewn amserlen benodedig;
- ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried y mapiau rhwydwaith integredig wrth baratoi polisiau trafnidiaeth a sicrhau bod yna lwybrau teithio llesol newydd a gwell a chyfleusterau cysylltiedig;
- ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol adrodd ar deithio llesol yng Nghymru;
- ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, wrth gyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr a rhoi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol eraill;
- ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon er mwyn hyrwyddo siwrneiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a gwell, a chyfleusterau cysylltiedig.

2.2 Mae'r canllawiau hyn yn egluro beth mae'r dyletswyddau hyn yn ei olygu'n ymarferol, ac yn rhoi cyngor i awdurdodau lleol ac awdurdodau priffyrdd ar sut i gwrdd â'r dyletswyddau hyn. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar sut y gellir cwrdd â dyletswyddau presennol eraill (fel cydraddoldeb a hawliau tramwy) wrth gyflawni dyletswyddau'r Ddeddf hon. Mae Atodiad A yn nodi'r pwerau a'r dyletswyddau a grewyd gan y Ddeddf, a'r cyrff y mae'r pwerau a'r dyletswyddau hyn yn effeithio arnynt.

Ble fydd y Dyletswyddau'n Berthnasol

2.3 O dan y Ddeddf, bydd rhai dyletswyddau ond yn berthnasol i ardaloedd dynodedig penodol. O dan adran 2(4) y Ddeddf, bydd Gweinidogion Cymru'n dynodi'r ardaloedd hyn mewn Cyfarwyddyd. Cafodd y Cyfarwyddyd hwn ei wneud ar 2 Hydref 2014 a'i anfon at bob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae testun y Cyfarwyddyd ar gael yn Atodiad B, a gallwch weld y Cyfarwyddyd ei hun yn www.wales.gov.uk/topics/transport/walking-cycling/activetravelact/implementation/?skip=1&lang=cy

2.4 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cwrdd â'r dyletswyddau penodedig yn eu hardaloedd dynodedig. Fodd bynnag, gall awdurdodau lleol fapio a gwneud gwelliannau mewn ardaloedd eraill hefyd lle credir y byddai hynny'n briodol. Gall awdurdodau lleol ddewis mapio ardaloedd yn Lloegr lle mae aneddiadau yn yr ardaloedd dynodedig yn croesi'r

ffin. Fodd bynnag, nid oes raid iddynt wneud hyn. Mae cyrhaeddiad y Ddeddf yn gorffen wrth y ffin.

Y Diffiniad o Deithio Llesol a Llwybrau Teithio Llesol

2.5 Mae “teithio llesol” yn golygu cerdded a beicio yn lle defnyddio trafndiaeth fodurol ar gyfer siwrneiau a wneir bob dydd. Mae “siwrne teithio llesol” yn golygu siwrne a wneir i neu o weithle neu sefydliad addysgol i gyrraedd gwasanaethau neu gyfleusterau iechyd neu hamdden ac ati.

2.6 Mae’r diffiniad hwn yn cynnwys cymudo pellter byr, teithio i’r ysgol ac i gyfleusterau addysgol eraill, teithio i’r siopau ac i gyfleusterau hamdden ac ati. Lle nad oes modd defnyddio llwybrau i gyrraedd gweithle neu sefydliad addysgol, gwasanaethau neu gyfleusterau iechyd neu hamdden ac ati, nid ydynt felly’n addas i’w hystyried fel llwybrau teithio llesol. Nid yw’r diffiniad hwn yn cynnwys llwybrau at ddefnydd hamdden yn unig (er enghraifft, llwybrau beicio mynydd yn bennaf) na llwybrau nad ydynt yn cysylltu i gyfleusterau a gwasanaethau.

2.7 Yn ymarferol, defnyddir y llwybrau teithio llesol gorau’n gyson i bwrpas hamdden. Er mai nod y Ddeddf yw hyrwyddo cerdded a beicio fel dulliau trafndiaeth, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gefnogol iawn o gerdded a beicio, a chwaraeon beicio, i bwrpas hamdden. Mae cerdded a beicio i bwrpas hamdden wedi’i gysylltu’n gryf i barodrydd person i deithio’n llesol. Mae cerdded a beicio’n gyson i bwrpas hamdden ar hyd llwybr yn arwydd o lwybr o safon a dylid ei ystyried fel arwydd o lwyddiant.

2.8 Bydd ond angen i lwybrau teithio llesol ymestyn cyn belled ag y mae pobl yn fodlon teithio ar eu hyd i wneud siwrne. Ar sail astudio patrymau teithio a chymudo, gwell gan y rhan fwyaf o bobl i’w siwrneiau rheolaidd gymryd llai na thri chwarter awr.¹ Fodd bynnag, mae tri chwarter awr yn siwrne hir fel taith lesol i lawer o bobl, ac mae’n debyg mai ond y teithwyr llesol mwyaf brwdfrydig a fyddai’n gwneud y mathau hyn o siwrneiau’n gyson. I lawer o bobl, bydd yr amser hiraf ar gyfer siwrne lesol yn llawer byrrach.

2.9 Mae’r Canllawiau Dylunio’n cynnwys mwy o fanylion am hyd a natur llwybrau gan ddibynnu ar y lleoliad a’r defnyddwyr tebygol.

2.10 Mae’r Canllawiau Dylunio’n nodi beth sydd angen ei hystyried wrth benderfynu a yw llwybr yn addas neu beidio, ar sail ei gyflwr, graddiant a ffactorau eraill. Yr awdurdod lleol sy’n gyfrifol am benderfynu a fyddai llwybr yn addas i’w gynnwys ar y map. Mae’r Canllawiau Dylunio’n cynnwys adran ar gynllunio rhwydwaith, fydd yn gymorth i benderfynu ble fydd y pwyntiau cyrchfan a’r llwybrau rhwng y rhain. Nid oes dyletswydd statudol i fapio llwybrau y tu allan i’r ardaloedd dynodedig, ond anogir awdurdodau lleol i wneud hynny lle bo’n rhesymol ac yn gwneud synnwyr.

Y Diffiniad o Deithiwr Llesol – cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr eraill y briffordd

2.11 Mae’r term “cerddwr” yn cofleidio nid yn unig bobl sy’n teithio ar droed ond hefyd rhai sy’n defnyddio cadeiriau olwyn neu gymhorthion eraill i symud o gwmpas. Byddai rhywun sy’n defnyddio cadair olwyn drydan, sgwter symudedd neu gerbyd tebyg hefyd yn cael eu hystyried i fod yn gerddwr yn hytrach na’n ddefnyddiwr teithio modurol. Mae hyn yn adlewyrchu bod modd defnyddio cadair olwyn drydan neu sgwter symudedd ar bafin, ac nad

¹ ONS, Commuting to Work, 2011

dynt yn addas i'w gyrru ar y ffordd. Mae "beicio" a "beiciwr" yn cyfeirio at ddefnyddwyr beics pedlo nid beics modur. Mae'r diffiniad hwn o feicio'n cynnwys e-feics (a elwir hefyd yn feics pedal a gynorthwyr yn drydanol, beics trydan neu feics pedelec). Beics yw'r rhain lle mae modur trydanol yn cynorthwyo'r beiciwr drwy roi pŵer ychwanegol i'r pedlau a'i gwneud yn haws beicio. Maent yn wahanol i feics modur trydanol, lle mai'r modur yn unig sy'n gyrru'r beic.

2.12 Nid yw micro-sgwteri, sglefrolwyr, sgrialfyrddau a dulliau eraill tebyg o deithio'n cael eu cynnwys yn y diffiniad statudol o deithio llesol. Fodd bynnag, mae'r dulliau hyn o deithio'n boblogaeth ymhlith grwpiau penodol. Er enghraifft, mae micro-sgwteri'n boblogaidd gyda phlant iau i deithio i'r ysgol. Ni ddylid cymell pobl i beidio eu defnyddio nac ychwaith rhwystro eu defnydd a hwythau'n ddull trafndiaeth poblogaidd.

2.13 Yn hytrach na'n ddull trafndiaeth, mae mynd ar gefn ceffyl yn digwydd bron yn llwyr i bwrpas hamdden. Ni ystyrir bod mathau gwahanol o fynd ar gefn ceffyl (marchogaeth, gyrru cerbyd, ceffyl a throl etc) yn ddulliau o deithio llesol. Fodd bynnag, wrth ddarparu darpariaethau'r Ddeddf, dylai awdurdodau lleol gofio bod marchogion yn ddefnyddwyr ffordd agored i niwed ac na ddylid cyfyngu ar fynediad marchogion at lwybrau a fwynheir ganddynt ar hyn o bryd. Gall marchogion, cerddwyr a beicwyr ddefnyddio llwybr ceffyl a gall felly fod yn rhan o lwybr teithio llesol, ond ni ddylai gwelliannau i lwybr ceffyl amharu ar ei ddefnydd gan farchogion na golygu y byddai angen iddynt ddefnyddio llwybr diogel yn hytrach. Mewn rhai achosion gallai fod yn fwy priodol i'r holl ddefnyddwyr pe gwneid darpariaeth ar wahân ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

2.14 Gall llwybrau sydd ar gael i draffig modurol fod yn addas ar gyfer rhai teithwyr llesol mewn rhai amgylchiadau. Wrth wneud gwelliannau i deithio llesol, dylai awdurdodau lleol ystyried a fyddai'r gwelliannau hyn yn dileu mynediad at wasanaethau i gerbydau modur, yn ddiangen. Dylid cydnabod y gall hawliau tramwy i gerbydau fod yn bwysig i ddefnyddwyr gyda nam ar eu symudedd.

2.15 Gallai fod adegau, er mwyn darparu rhwydwaith ystyrion o deithio llesol, lle bydd angen llwybrau mewn lleoliadau lle byddai traffig modurol yn sylweddol o dan anfantais. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai awdurdodau lleol farnu a oes lleoliad arall gwahanol ar gyfer y llwybr ond lle byddai anghenion y rhwydwaith integredig yn dal i gael eu diwallu. Fodd bynnag, os na fyddai lleoliad addas arall ar gael, ni ddylai anhwylustod i deithwyr modurol fod yr unig reswm dros beidio â symud ymlaen gyda llwybr teithio llesol. Un o nodau'r Ddeddf yw cael pobl i newid eu dull trafndiaeth. Mae'r Canllawiau Dylunio'n cynnwys cyngor ar sut i symud ymlaen yn yr amgylchiadau hyn (Pennod 5 Adran 2: Cynllunio Rhwydwaith ar gyfer Beicwyr).

2.16 Dylid bod yn ofalus lle mae llwybr teithio llesol yn croesi croesfan reilffordd. Croesfannau rheilffordd yw'r rhannau mwyaf peryglus o'r rhwydwaith rheilffyrdd i'r cyhoedd, ac mae gan Network Rail raglen lle bwriedir cau a disodli croesfannau rheilffordd gyda llwybrau eraill. Os yw llwybr teithio llesol ar y map rhwydwaith presennol neu'r map rhwydwaith integredig yn cynnwys croesfan reilffordd, dylid ymgynghori'n uniongyrchol â Network Rail. Gallai fod cyfleoedd i gysoni rhaglenni sydd am wella llwybrau teithio llesol, a rhaglenni i gau croesfannau rheilffordd, er mantais i bawb.

Ariannu

2.17 I sicrhau'r gwerth gorau am arian, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arolwg cychwynnol o lwybrau teithio llesol a'u cyfleusterau yn yr ardaloedd dynodedig. Bydd system rheoli data hefyd ar gael ar lefel genedlaethol. Bydd y system hon yn casglu ynghyd ac

arddangos y data hwn, fel bod awdurdodau lleol yn gallu ehangu'r data sydd ar gael a chreu eu mapiau llwybrau presennol a'r mapiau rhwydwaith integredig. Mae'r cyllid i greu ac ymgynghori ar y mapiau hyn wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol fel rhan o'r gronfa drafnidiaeth leol. Mae adran 3 yn y canllawiau hyn yn nodi'r broses fapio'n fwy manwl, gan gynnwys sut y gellir gwario'r cyllid hwn.

2.18 Bydd y ddyletswydd i sicrhau llwybrau a chyfleusterau newydd a gwell i gerddwyr a beicwyr yn cael ei hariannu drwy gyfeirio'r gwariant presennol ar gerdded a beicio i wella'r llwybrau a nodir ar y mapiau rhwydwaith integredig. Cyn creu'r mapiau rhwydwaith integredig, bydd awdurdodau lleol yn parhau i dderbyn cyllid i ddarparu'r prosiectau teithio llesol a gyflwynir yn eu cynlluniau trafnidiaeth leol. Bydd angen ystyried y gost o wella cyfleusterau cerdded a beicio fel rhan o bob cynllun ffordd newydd unigol, a chynllunio ar sail hynny.

2.19 Anogir awdurdodau lleol i sicrhau ffynonellau cyllid ychwanegol er mwyn achub ar bob cyfle i wneud gwelliannau, er enghraifft drwy greu partneriaethau â'r sector preifat i gefnogi teithio llesol yn eu hardal. Gallai hyn fod ar ffurf nawdd corfforaethol i gynlluniau a seilwaith drwy hysbysebu ar y mapiau, rhywbeth a wneir eisoes ar amryw o fapiau twristiaeth; a thrwy weithio â chyflogwyr lleol i hyrwyddo cerdded a beicio ymhlith eu staff.

2.20 Mae ffocws teithio llesol ar gerdded a beicio fel dull trafnidiaeth yn hytrach na fel gweithgaredd hamdden. Fodd bynnag, gallai rhai llwybrau a chyfleusterau teithio llesol hefyd annog cerdded a beicio i bwrpas hamdden. Yn yr achosion hyn, gallai fod cyfleoedd i sicrhau cyllid ar gyfer cyfleusterau hamdden, twristiaeth neu chwaraeon.

2.21 Mae amryw byd o sefydliadau'n cyfrannu at y gost o ddarparu seilwaith cerdded a beicio, neu at hyrwyddo a marchnata'r seilwaith hwnnw i annog pobl i'w ddefnyddio. Rhestrir rhai ohonynt isod:

- Llywodraeth Cymru;
- Y Comisiwn Ewropeaidd;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Y Loteri Genedlaethol.

2.22 Mae Sustrans, yr Ymddiriedolaeth Groundwork a Chymdeithas y Cerddwyr hefyd yn gyrff da i'w holi am arian cyfatebol, er nad ydynt yn ariannu cynlluniau'n uniongyrchol.

Teithio Llesol ac Awdurdodau Cynllunio

2.23 Gall awdurdodau cynllunio ddefnyddio ymrwymadau cynllunio (cytundebau adran 106) i sicrhau gwelliannau i ffyrdd, cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus, p'un ai o ganlyniad i gynnig unigol neu mewn cyfuniad â chynigion eraill a lle byddai gwelliannau o'r fath yn debygol o ddylanwadu ar batrymau teithio. Yn y cyswllt hwn, dylid defnyddio ymrwymadau cynllunio i greu neu wella llwybr teithio llesol a ddynodir yng nghyffiniau'r safle.

2.24 Dylid dangos y cysylltiad rhwng datblygiad a'r angen am unrhyw seilwaith, a dylai'r cyfraniad fod yn deg a rhesymol ei faint mewn cymhariaeth â'r seilwaith sydd ei angen. Gallai cynlluniau o'r fath fod yn welliannau cysylltiedig i lwybrau cerdded neu feicio sy'n mynd yn agos at safle neu'n ei gwneud yn haws cyrraedd y safle.

2.25 Gellir hefyd defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) i liniaru effaith datblygiad. Gallai enghraifft o hyn gynnwys gwelliannau i lwybrau teithio. Mater i awdurdodau cynllunio lleol yw penderfynu beth yw eu blaenoriaethau o gynnwys cytundeb adran 106 a CIL, ond gallai'r arian a fyddai'n cael ei gasglu o godi CIL gael ei gronni i dalu am brosiectau

seilwaith cerdded a/neu feicio. Bydd angen cael tystiolaeth gadarn i gefnogi unrhyw ardoll CIL, a bydd yn cael ei brofi drwy archwiliad cyhoeddus.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Statudol Eraill

2.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu ei hegwyddor drefniadol ganolog yn gynaliadwy. Cyflwynwyd y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar 7 Gorffennaf 2014 gyda'r nod o gryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella lles yng Nghymru.

2.27 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus wrth arfer eu swyddogaethau. Drwy wneud hyn rhaid i awdurdodau ymgynghori, ymhlith eraill, â chynrychiolwyr pobl sydd neu sy'n debygol o ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Drafftwyd y dyletswyddau a grewyd o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 gyda'r dyletswyddau hyn mewn golwg.

2.28 Roedd adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus lle mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus, wrth arfer ei swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i—

- (a) dileu gwahaniaethu, harasio, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan neu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- (b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hon; a
- (c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hon.

2.29 Roedd adran 153 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno pwerau lle gall Gweinidogion Cymru, ar ffurf rheoliadau, roi dyletswydd ar awdurdod cyhoeddus i'r pwrpas o sicrhau bod yr awdurdod yn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn well. Cefnogir y dyletswyddau penodol yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 gan Ganllawiau Technegol a gyhoeddir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n cynnig dulliau ymarferol o gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'r ddogfen yn ganllaw technegol cynhwysfawr ac awdurdodol ar fanylion y gyfraith, gan gynnwys bod angen amcanion a chynlluniau cydraddoldeb ac asesiadau o effaith.

2.30 Bydd gwaith ar ddatblygu mapiau, ac ar greu llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd neu well, yn effeithio ar rai grwpiau'n wahanol i eraill. I gwrdd â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr effeithiau gwahanol hyn ac a oes modd eu lleihau neu eu dileu'n llwyr. Bydd angen i'r mapiau ddangos unrhyw rwystrau ar hyd y llwybrau'n glir i sicrhau bod pobl yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch y llwybr mwyaf priodol iddyn nhw. Mae'r Canllawiau Dylunio'n cynnwys mwy o wybodaeth am ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr drwy ddylunio seilwaith, yn benodol ym Mhennod 4: Anghenion Defnyddwyr.

2.31 Dylai awdurdodau lleol, fel mater o ymarfer da, a hefyd i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sicrhau ym mhob cam o baratoi a chyhoeddi eu mapiau bod gymaint o bobl ag y bo'n rhesymol bosibl yn gallu gweld y mapiau a mynychu'r sesiynau ymgynghori. O dan y Ddeddf rhaid i awdurdodau lleol hefyd ymgynghori â phawb a ofynnodd iddynt ymgynghori â nhw, ac unrhyw bobl y tybient eu bod yn briodol. Mae adran 3 yn y canllawiau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am ofynion ymgynghori'r Ddeddf.

2.32 O'r cychwyn cyntaf, dylid casglu gymaint o wybodaeth a chynghor lleol ag y bo'n rhesymol bosibl am yr effaith ar bobl anabl a rhai gyda nodweddion a warchodir. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y defnydd presennol o lwybrau gan bobl gyda nodweddion sy'n effeithio ar eu gallu i deithio'n llesol, a llwybrau penodol lle mae'r mynediad yn anfoddhaol.

2.33 Dylai awdurdodau lleol geisio sefydlu deialog â mudiadau sy'n cynrychioli pobl gyda nodweddion a warchodir, fel rhan o ennill dealltwriaeth glir o anghenion, amgylchiadau a chyfleoedd lleol. Dylai awdurdodau lleol ymgynghori â'u cydweithwyr a allai fod yn meddu ar arbenigedd neu fod yn rhan o rwydwaith o gyrff sy'n gweithio â phobl â nodweddion gwarchoddedig. Er enghraifft, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, swyddogion gwybodaeth anabledd, y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Lleol, tîm Cydraddoldebau'r awdurdod, y llinell gyngor a gwybodaeth leol ar anabledd (DIAL), Iechyd Cyhoeddus Cymru a mudiadau'r trydydd sector (megis RNIB Cymru, Anabledd Cymru, Cŵn Tywys Cymru, Diverse Cymru a Grwpiau Mynediad Lleol). Os ydy'r awdurdod yn dal i gyflogi Swyddog Mynediad, bydd yn ymwybodol o'r trefniadau rhwydwaith sefydledig yn yr ardal a dylent hefyd fod yn gallu awgrymu'r cysylltiadau lleol mwyaf priodol i awdurdodau lleol eu holi.

Monitro ac Adrodd

2.34 Bydd dwy agwedd ar y gwaith monitro; monitro effaith y Ddeddf yn gyffredinol a monitro'r cynlluniau penodol fydd yn cael eu darparu o ganlyniad i'r Ddeddf. Rhoddir mwy o wybodaeth am fonitro'r cynlluniau penodol fydd yn cael eu darparu o ganlyniad i'r Ddeddf yn y Canllawiau Dylunio (Pennod 11: Monitro a Gwerthuso). Nid yw'r ddogfen hon, felly, yn trafod hyn.

2.35 O dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol adrodd ar:

- y newid yn lefel y defnydd a wneir o lwybrau teithio llesol pob tro y cyflwynir eu map llwybrau presennol i'w gymeradwyo;
- y costau a achoswyd ganddynt wrth greu a gwella'r seilwaith teithio llesol;
- sut y gwnaethant ddarparu eu swyddogaethau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo teithio llesol.

2.36 Ni wnaeth y Ddeddf greu pwerau fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu cyhoeddi canllawiau statudol ar yr adroddiadau hyn. Fodd bynnag, mae Pennod 3 yn y ddogfen hon yn cynnwys canllawiau anstatudol ar yr adroddiadau hyn, i gynorthwyo awdurdodau lleol i gwrdd â'r dyletswyddau adrodd hyn.

2.37 O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd yn flynyddol ar faint a pha mor aml y mae cerddwyr a beicwyr yn gwneud siwrneiau teithio llesol. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd adolygu'r Ddeddf o fewn pum mlynedd fan bellaf i'r terfyn amser ar gyfer cynhyrchu'r mapiau rhwydwaith integredig cyntaf. Rhaid i'r adolygiad hwn asesu llwyddiant (neu beidio) y llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiedig ynghyd â'r gwelliannau i'r llwybrau a'r cyfleusterau teithio llesol presennol. Bydd hefyd yn asesu cynnydd gydag annog mwy o bobl i gerdded a beicio'n amlach a'r gwersi a ddysgwyd wrth ddarparu'r ddeddfwriaeth.

2.38 Bydd y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r Ddeddf ac yn cynnwys manylion am y trefniadau ar gyfer monitro canlyniadau a llwyddiant y rhaglen ehangach. Bydd y mesurau a'r dangosyddion hyn yn cael eu defnyddio i asesu a wnaeth y Ddeddf gyflawni ei hamcanion.

3. Paratoi'r mapiau

Rhagarweiniad

3.1 O dan y Ddeddf rhaid cynhyrchu dau fap, y map llwybrau presennol a'r map rhwydwaith integredig. Bydd y mapiau llwybrau presennol yn dangos y llwybrau o fewn yr ardaloedd dynodedig sy'n addas a phriodol ar gyfer siwrneiau teithio llesol. Gallai'r llwybrau hyn fod ar y ffordd, wedi eu rhannu, yn rhai ar wahân neu'n ddi-draffig. Gallent fod i gerddwyr neu feicwyr, neu i'r ddau grŵp. Byddant hefyd yn dangos y pwyntiau croesi a'r cyfleusterau ar gyfer hwyluso teithio llesol ar y llwybrau hyn, gan gynnwys llochesi a lle i storio a pharcio beics a thoiledau cyhoeddus. I gyd-fynd â'r mapiau llwybrau presennol, bydd angen cael datganiad yn nodi lle mae'r llwybrau (os oes rhai) yn syrthio'n brin o'r safonau a nodir yn y Canllawiau Dylunio.

3.2 Prif ddiben y mapiau llwybrau presennol yw rhoi gwybod i'r cyhoedd am llwybrau diogel ac addas ar gyfer teithio llesol. Bydd angen i'r cyhoedd fod yn hyderus bod y llwybrau ar y mapiau'n addas i'w defnyddio; na fydd y llwybrau'n dod i ben yn sydyn; a bod y llwybrau'n gyffredinol yn bodloni'r safonau yn y canllawiau dylunio. Pwrpas y mapiau yw rhoi'r wybodaeth sydd ei angen ar gerddwyr a beicwyr i wneud penderfyniad ynghylch sut a ble i deithio. Fodd bynnag, bydd y mapiau llwybrau presennol hefyd yn ffynhonnell ddata werthfawr i awdurdodau lleol wrth reoli eu llwybrau teithio llesol.

3.3 Dylai'r mapiau rhwydwaith integredig gyflwyno cynlluniau'r awdurdod lleol am y 15 mlynedd nesaf. Offeryn i awdurdodau lleol yw'r map rhwydwaith integredig yn bennaf, i'w helpu i flaengynllunio teithio llesol yn well a chysoni eu cynlluniau ar draws eu gwahanol adrannau. Bydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol a bydd angen iddo felly fod ar gael ac yn hygyrch iddynt. Fodd bynnag, bwriedir iddo gael ei ddefnyddio'n bennaf i hwyluso'r gwaith o gynllunio datblygiadau seilwaith.

3.4 O dan y Ddeddf, rhaid cyflwyno'r mapiau i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Rhaid cyflwyno'r mapiau llwybrau presennol o fewn blwyddyn i gychwyn adran 3 y Ddeddf a rhaid cyflwyno'r mapiau rhwydwaith integredig o fewn tair blynedd i gychwyn adran 4 y Ddeddf.

25 Medi 2014 – Y Ddeddf yn Cychwyn

24 Medi 2015 – Cyflwyno'r mapiau llwybrau presennol

24 Medi 2017 – Cyflwyno'r map rhwydwaith integredig ac ailgyflwyno'r map llwybrau presennol

24 Medi 2020 – ailgyflwyno'r map llwybrau presennol a'r map rhwydwaith integredig.

Arolwg Cenedlaethol a Rheoli Data ar gyfer Mapio

3.5 I helpu awdurdodau lleol i gwrdd â'r ddyletswydd hon, mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu contract cenedlaethol i greu system rheoli data i fapio'r data, ac arolwg cychwynol o'r seilwaith teithio llesol i boblogi'r system hon. Sustrans fydd yn arwain y gwaith o gasglu, arolygu a phrosesu'r data ac Exegetis SDM fydd yn arwain y gwaith o ddylunio a datblygu'r rhaglen fapio.

Yr Arolwg Cychwynnol

3.6 Bydd yr arolwg yn digwydd yn yr ardaloedd dynodedig yn unig. Bydd Sustrans yn galw ar gymorth ceidwaid gweithredol a gwirfoddolwyr Sustrans, ynghyd ag arbenigedd swyddogion awdurdod lleol mewn cynllunio trafndiaeth, teithio llesol, cerdded a beicio a/neu GIS.

3.7 Bydd Sustrans yn cyflawni dadansoddiad bwrdd gwaith o'r data ar y llwybrau cerdded a beicio presennol. Bydd yn gyfle i awdurdodau lleol ddarparu unrhyw ddata GIS presennol yr hoffent ei gynnwys. Bydd Sustrans yn gwneud defnydd o'r ffynonellau canlynol:

- Setiau data Mastermap yr Arolwg Ordnans (gan gynnwys Topo ac ITN).
- Data GIS llywodraeth leol (gan gynnwys data hawliau tramwy)*.
- Gwaith arolwg blaenorol a wnaed yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd sydd ar gael yn OpenStreetMap.
- Data GIS Llywodraeth Cymru.
- Data GIS Sustrans ei hun ar lwybrau beicio cenedlaethol a lleol*.
- Data GIS y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Gyda ffynonellau *, efallai y bydd angen cysylltu â swyddogion GIS yr awdurdod lleol i gael gweld y data.

3.8 I bwrpas yr ymarfer hwn, bydd Sustrans ac Exegesis SDM yn gweithio dan gontract i Lywodraeth Cymru a gellir felly rhannu'r wybodaeth Arolwg Ordnans gyda nhw o dan eu trwydded contractwr. Nid oes angen creu trwydded contractwr ar wahân gyda Sustrans neu Exegesis SDM i bob awdurdod lleol. Mae'r dull hwn wedi cael ei drafod a'i gymeradwyo gan yr Arolwg Ordnans.

3.9 Bydd ymgynghori â swyddogion awdurdod lleol cyn cynnal yr arolwg. Bydd Sustrans yn darparu mapiau i'r awdurdodau lleol ar ffurf pdf neu haenau GIS, naill ai ar ffurf ffeiliau MapInfo Tab neu ArcView. Bydd swyddogion awdurdod lleol yn ystyried a oes unrhyw ddarnau coll amlwg yn y seilwaith neu unrhyw wallau amlwg eraill sy'n glir i rywun gyda gwybodaeth leol. Bydd yr ymgynghori hwn hefyd yn cynnwys gwirfoddolwyr a chefnogwyr lleol Sustrans. Bydd yn cael ei hwyluso gan Gydgysylltydd Gwirfoddolwyr Sustrans Cymru, ac ni fydd raid i swyddogion awdurdod lleol gymryd rhan.

3.10 Cyflawnir arolwg maes o'r nodweddion a restrir yn Atodiad C. Bydd hyn yn cael ei wneud gan Sustrans, yn defnyddio arolygwyr hyfforddedig, ac ni fydd gan swyddogion awdurdod lleol ran uniongyrchol ynddo. Fodd bynnag, os yw'r ymgynghori cyn-arolwg yn nodi ardaloedd a ddylai dderbyn blaenoriaeth gan yr arolwg, gellir tynnu eu sylw at reolwr ardal Sustrans Cymru.

3.11 Ar ôl cwblhau'r arolwg maes, bydd Sustrans yn ôl-brosesu'r arolwg ar gyfer ei gofnodi ar y system rheoli data. Bydd modd wedyn defnyddio'r data ar gyfer mapiau electronig a phapur. Ar ôl cwblhau'r gwaith prosesu, bydd yn cael ei ailgyflenwi i'r awdurdodau lleol ac i wirfoddolwyr Sustrans i wirio ei gywirdeb. Bydd yna'n cael ei lanlwytho i'r system rheoli data.

Y System Rheoli Data

3.12 Bydd gan y system rheoli data system rheoli cynnwys llawn ar-y-we. Bydd defnyddwyr cofrestredig/awdurdodedig yn gallu golygu a diweddarau'r rhwydwaith, ac adolygu a golygu unrhyw wrthdaro rhwng llwybrau ITN newydd a ddiweddarir a llwybrau presennol yn y

rhwydwaith teithio llesol. Bydd y setiau data'n cael eu "troshaenu" ar fapiau'r Arolwg Ordnans, gan ddangos lleoliad cyfleusterau a fydd yn effeithio ar a allai llwybr fod yn addas ar gyfer siwrneiau teithio llesol neu beidio.

3.13 Bydd set ddata'r arolwg cychwynnol yn golygu y gellir ystyried llawer o'r llwybrau fel ymarfer bwrdd gwaith; a rhwng y wybodaeth leol a'r wybodaeth fanwl a gyflwynir am led ac am rwystrau mynediad, dylai fod y bosibl llunio barn gychwynnol am lwybrau sy'n addas ar gyfer teithio llesol.

3.14 Mae gan y Canllawiau Dylunio ddull archwilio llwybrau hynod fanwl. Bydd archwilio llwybrau'n waith i'r awdurdodau lleol ei gyflawni, er y bydd data'r arolwg cychwynnol yn golygu bod modd cyflawni llawer o'r archwilio fel ymarfer bwrdd gwaith. Efallai y bydd angen i awdurdodau lleol wneud ychydig o waith maes ar ôl llunio barn gychwynnol i gadarnhau eu bod yn fodlon bod y llwybrau a ddewiswyd naill ai'n cwrdd â'r safonau penodedig, a/neu fod angen cwblhau'r datganiad ac eglurhad.

3.15 Bydd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r rhaglen ar-y-we i olygu, creu a rheoli data eu mapiau teithio llesol eu hunain, a chynhyrchu mapiau llwybrau presennol copi caled. Bydd data ar gael fel gwasanaethau ar-y-we y gellir eu hychwanegu'n uniongyrchol ar gyfer eu darllen mewn systemau eraill (e.e. ArcMap, MapInfo Professional, QGIS).

3.16 Bydd y system yn cynnwys haen i ychwanegu'r llwybrau teithio llesol. Bydd y system yn cynhyrchu templedi pdf fel y gellir argraffu'r llwybrau fel copi caled. Gellir yna argraffu'r mapiau drafft hyn a'u defnyddio ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am ymgynghori â'r cyhoedd ar y Mapiau Llwybrau Presennol drafft. Disgwylir i awdurdodau lleol ddiwygio'r data ar y system fel bod y mapiau'n adlewyrchu canlyniad yr ymarfer ymgynghori.

3.17 Gellir defnyddio'r un system i gynhyrchu'r mapiau rhwydwaith integredig. Bydd gan y system haen fapiau lle gellir cyflwyno cynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor ar y system.

3.18 Bydd defnydd parhaus o'r system rheoli data'n golygu y bydd awdurdodau lleol yn gallu rheoli eu mapiau llwybrau presennol yn barhaus unwaith fydd yr arolwg wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn rhoi rheolaeth dros y data yn nwylo'r awdurdodau lleol. Gellir diwygio ac ehangu ar y wybodaeth ar ôl ymgynghori, ar ôl archwilio ac ar ôl adeiladu'r seilwaith newydd. Bydd diweddarau'r system yn gyson wrth adeiladu, archwilio a chynnal y seilwaith yn golygu na fydd angen gymaint o arolygon yn y dyfodol, gan leihau'r gost o ddatblygu'r map llwybrau presennol ffurfiol nesaf y byddai angen i Weinidogion ei gymeradwyo.

3.19 Bydd y system hefyd yn golygu y bydd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio eu data teithio llesol yn eu System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (lle defnyddir y system hon). Bydd felly modd rheoli'r rhwydwaith teithio llesol o ddydd i ddydd, a chaniatáu adrodd mwy cymhleth/pwrpasol nag y byddai'n bosibl ar y we. Bydd awdurdodau lleol felly'n gallu cwrdd â'r gofynion fydd arnynt i adrodd ar seilwaith, yn ogystal â hwyluso blaengynllunio a rheolaeth barhaus.

Cynnwys y Map Llwybrau Presennol

3.20 I bwrpas y map llwybrau presennol, nid oes angen i awdurdodau lleol ddangos pafinau wrth ymyl y ffyrdd. Dylai'r map nodi'n glir lle nad oes pafin (neu lle mae safon y pafin yn rhy wael i gael ei ddefnyddio'n ddiogel). Bydd hefyd angen i awdurdodau lleol ddangos ar y mapiau llwybrau presennol lle nad yw'r llwybrau'n cwrdd â'r safon a nodir

yn y canllawiau dylunio. Mae'r canllawiau dylunio'n cynnwys templed archwilio i sefydlu a yw llwybr yn cwrdd yn llwyr â'r safonau, bron yn cwrdd â'r safonau, neu'n bell o fod yn cwrdd â'r safonau yn y canllawiau. Gellir defnyddio'r offeryn archwilio hwn yn sail ar gyfer y "datganiad ac eglurhad".

3.21 Wrth lunio'r mapiau llwybrau presennol, dylai awdurdodau lleol ystyried sut y mae'r ardaloedd dynodedig yn eu hardal nhw ac mewn ardaloedd awdurdod lleol cyfagos wedi eu cysylltu. Lle bo hynny'n berthnasol, dylai awdurdodau lleol weithio'n gydweithredol i nodi llwybrau rhwng aneddiadau sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol a dangos y rhain yn briodol ar eu mapiau llwybrau presennol.

3.22 Rhaid i unrhyw gyfleusterau a ddangosir ar y map llwybrau presennol fod ar gael i'r cyhoedd, er nad oes raid iddynt fod yn "ddi-dâl" (e.e. toiledau sy'n agor gyda darnau o arian). Ni ddylid cynnwys cyfleusterau sydd ond ar gael i grwpiau penodol, fel toiledau mewn campfa i aelodau'n unig.

3.23 Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried dangos tirnodau a phwyntiau cyrchfan fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn helpu i hwyluso siwrneiau i'r lleoliadau hyn ac yn bwyntiau cyfeirio fel bo'r mapiau'n haws eu defnyddio. Dylai'r pwyntiau cyrchfan hyn gynnwys:

- Lleoliad prif swyddfeydd a pharciau busnes;
- Pwyntiau i gyrraedd trafniadaeth gyhoeddus;
- Llyfrgelloedd;
- Swyddfeydd post;
- Stadiwms chwaraeon;
- Canolfannau hamdden;
- Parciau;
- Adeiladau crefyddol;
- Ysbytai;
- Canolfannau siopa;
- Sefydliadau addysgol;
- Sefydliadau diwylliannol;
- Canolfannau Croeso;
- Atyniadau twristiaeth a hamdden;
- Llwybrau cerdded a beicio hamdden;
- Siopau trwsio a chynnal a chadw beics.

Mater i'r awdurdod lleol fydd penderfynu pa leoliadau, os o gwbl, a fyddai'n gwneud y mapiau'n fwyaf gwerthfawr i deithwyr llesol yn eu hardal.

Paratoi Datganiad

3.24 Gallai awdurdod lleol nodi rhai llwybrau sydd, yn eu barn nhw, yn ddefnyddiol ac addas ar gyfer teithio llesol, ond nad ydynt yn cwrdd â'r safonau yn y canllawiau dylunio. Gellir dangos y llwybrau hyn ar y mapiau llwybrau presennol os ydynt wedi eu marcio'n glir fel rhai nad ydynt yn cwrdd â'r safonau. Pan gyflwynir y mapiau i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo, rhaid cynnwys datganiad yn nodi pa lwybrau nad ydynt yn cwrdd â'r safonau ynghyd ag eglurhad ynghylch pam y credir fod y llwybrau er hynny'n addas i'w cynnwys ar y mapiau. Gall y datganiad a'r eglurhad fod yn ddogfen fer, gyda dim ond cwpwl o frawddegau am bob llwybr.

3.25 Dyma enghreifftiau o eglurhad derbyniol:

- Mae'r llwybr beicio rhwng yr orsaf drenau a'r ganolfan siopa fymryn yn gulach na'r lled gymeradwy. Nid yw'n lleihau cysur na diogelwch yn sylweddol, oherwydd dim ond defnydd ysgafn a wneir o'r llwybr.
- Nid yw'r llwybr troed drwy'r parc wedi'i oleuo, ac yn cael ei ddefnyddio'n bennaf yn ystod oriau dydd.

3.26 Ni ddylid dangos llwybrau sy'n syrthio'n brin iawn o'r safonau, fel eu bod yn anodd ac na ellir eu defnyddio'n ddiogel, ar y mapiau lle bynnag y maen nhw. Ni ddylid ychwaith dangos llwybrau o safon uchel ar y mapiau os nad ydynt yn rhoi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, neu os na ellir eu cyrraedd yn ddiogel o weddill y rhwydwaith. Gallai llwybrau sydd ond at ddefnydd hamdden pur hefyd fod yn anaddas i'w cynnwys, neu llwybrau newydd eu creu sydd heb eu cysylltu i'r seilwaith ehangach eto.

3.27 Mae'r Canllawiau Dylunio'n cynnwys offeryn archwilio i sefydlu a yw llwybrau cerdded allweddol yn cwrdd â'r safonau, bron yn cwrdd â'r safonau neu'n syrthio'n brin iawn (Tabl 5.2). Mae Tabl 5.3 yn y canllawiau dylunio'n cynnwys cyfeiriad at ofynion rhwydwaith beicio, i helpu i benderfynu a yw llwybr beics yn cwrdd â'r safon neu beidio. Yn gyffredinol, ni ddylid dangos unrhyw llwybr sydd â ffactor "du" (critigol), neu yn achos llwybr teithio llesol lle mae'r sgôr cyfan yn uwch na'r lefel gymeradwy (ar gyfer llwybr beicio). Dylid cynnwys ffactor sgôr "coch" ar y datganiad a'r eglurhad.

3.28 Dylid ystyried barn pobl ynghylch pa mor addas fyddai cynnwys y llwybrau hyn ar y map wrth baratoi'r map terfynol. Dylid cynnwys y datganiad a'r eglurhad, ochr yn ochr â'r mapiau, wrth ymgynghori er mwyn helpu i oleuo'r farn am addasrwydd. Rhaid hefyd cyhoeddi'r datganiad a'r eglurhad ochr yn ochr â'r mapiau llwybrau presennol. Mae Pennod 4 yn y canllawiau hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer cyhoeddi'r mapiau a'r datganiad ac eglurhad.

Y Mapiau Rhwydwaith Integredig

3.29 Dylai'r mapiau rhwydwaith integredig gyflwyno cynlluniau'r awdurdod lleol am y 15 mlynedd nesaf. Bydd rhai cynlluniau'n fwy datblygedig nag eraill. Mae'n debyg y bydd y cynlluniau'n amrywio o gynlluniau "parod i dyllu" sydd i'w darparu yn y flwyddyn neu ddwy nesaf, i fwriadau i wella'r seilwaith teithio llesol mewn ardal ar ryw bwynt yn y 15 mlynedd nesaf. Lle mae cynlluniau wrthi'n cael eu datblygu, dylid eu dangos mewn manylder, e.e. llwybrau newydd wedi eu marcio, croesfannau etc.

3.30 Dylai bob cynllun sydd i'w ddarparu yn y tymor canolig (o fewn y pum mlynedd nesaf) fod â bwriad clir i ddarparu ond eto'n ddibynnol o hyd ar y cyllid sydd ar gael, caniatâd cynllunio neu faterion eraill. Mae cynlluniau sydd i'w darparu yn y tymor hirach (mwy na phum mlynedd) yn debygol o fod yn fwy seiliedig ar ddyhead, dyfalu neu'n aros i'w cwmpasu'n derfynol; cytunwyd ar yr ardal a'r canlyniad sydd mewn golwg ond nid ar yr union ateb. Bydd y system rheoli data'n cynnwys haen i ychwanegu'r map rhwydwaith integredig. Drwy ddefnyddio'r system hon, bydd awdurdodau lleol yn gallu gwahaniaethu rhwng cynlluniau sydd wrthi'n cael eu datblygu, rhai tymor canolig a rhai hirdymor. Fel y nodir ym mharagraff 3.36, dylid adnabod pob cynllun yn unigol er mwyn cysylltu'r llwybrau ar y map i'r canlyniad.

Dogfennau a Ffynonellau Gwybodaeth

3.31 Y diben mewn golwg ar gyfer y map rhwydwaith integredig yw dangos, ar ffurf ddaearyddol, yr holl gynlluniau i wella a hyrwyddo teithio llesol. Gellir defnyddio'r cynlluniau a'r strategaethau sydd gan yr awdurdod lleol yn barod i oleuo'r gwaith o greu'r mapiau

rhwydwaith integredig. Mae'n gyfle i ystyried cynlluniau perthnasol, a sut y daw'r cyfan ei gilydd i gael mwy o bobl i gerdded a beicio'n amlach ar draws ardal yr awdurdod lleol. Er enghraifft gall fod yn bosibl cyfuno cynlluniau unigol, oedd i'w darparu ar hyd yr un llwybr, yn un cynllun. Gall y map rhwydwaith integredig yna ddangos lle gallai unrhyw ymyriadau a gynlluniwyd wrthdaro â'i gilydd neu ddisodli cynllun arall (er enghraifft, cynllun i adfer gathiau ar lwybr troed sydd hefyd ar y gweill i gael ei droi'n llwybr beicio heb gathiau).

3.32 Gallai'r dogfennau, cynlluniau, archwiliadau a ffynonellau gwybodaeth eraill i'w hystyried yn y broses hon gynnwys:

- Cynlluniau Datblygu Lleol (a chanllawiau cynllunio atodol);
- Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol;
- Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy;
- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol;
- Cynlluniau teithio llesol neu gerdded a beicio lleol;
- Cynlluniau neu gynigion i ddatblygu llwybrau di-gerbyd, lonydd tawel, parthau cartrefi neu dawelu traffig;
- Strategaethau lleihau troseddu;
- Cynigion datblygu cymunedol, twristiaeth ac adfywio'r gymuned neu astudiaethau a wnaed yn yr ardal sy'n berthnasol i drafnidiaeth;
- Asesiadau a wnaed o'r rhwydwaith llwybrau neu ei botensial i gael ei ddatblygu fel rhan o seilwaith trafndiaeth leol cynaliadwy (e.e. llwybrau diogel i'r ysgol);
- Strategaethau gweithle, gan gynnwys rhaglenni byw'n iach;
- Cynlluniau rheoli ffyrdd a/neu strydoedd lleol;
- Cynlluniau a strategaethau diogelwch ffyrdd;
- Cynlluniau a strategaethau iechyd y cyhoedd a gweithgarwch corfforol sy'n cynnwys hyrwyddo teithio llesol (e.e. Adolygiadau o Gyfleusterau Chwaraeon);
- Cynigion ar gyfer defnydd tir, gan gynnwys datblygiadau tai/masnachol/diwydiannol;
- Gwybodaeth mewn asesiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae;
- Cynlluniau ar gyfer tir cyhoeddus fel parciau (e.e. archwiliadau o fannau gwyrdd);
- Cynlluniau a strategaethau gan drydydd partion sy'n cynnwys darparu seilwaith ar gyfer teithio llesol;
- Cynlluniau Gwella Ysgolion;
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol;
- Cynlluniau Datblygu Strategol;
- Cynlluniau Rheoli Adnoddau Naturiol pan fydd y rhain wedi cael eu datblygu.

3.33 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac ni fydd rhai o'r cynlluniau uchod yn berthnasol i bob awdurdod lleol. Y prif beth yw dod â chynlluniau presennol at ei gilydd a chwilio am ffyrdd o gynnig y manteision mwyaf ar draws y gwahanol amcanion polisi a lleihau unrhyw ddyblygu ymdrech lle mae gwaith eisoes wedi'i wneud.

3.34 Wrth baratoi mapiau rhwydwaith integredig, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo siwrneiau teithio llesol a sicrhau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwell. Yn ymarferol, mae'n golygu y dylai'r rhwydwaith gysylltu gwasanaethau ac ardaloedd preswyl fod bod siwrneiau teithio llesol yn opsiwn trafndiaeth deniadol ar gyfer siwrneiau byrrach. Dylai awdurdodau lleol hefyd adnabod lle mae angen gwella'r llwybrau a'r chyfleusterau presennol a lle mae angen creu llwybrau a chyfleusterau newydd i sefydlu rhwydwaith integredig.

3.35 Wrth lunio'r mapiau rhwydwaith integredig, dylai awdurdodau lleol ystyried sut y mae'r ardaloedd dynodedig yn eu hardal nhw ac mewn ardaloedd awdurdod lleol cyfagos wedi eu cysylltu. Lle nad yw'r pellter yn ormod i atal teithio llesol rhag bod yn opsiwn trafndiaeth hyfyw, dylai awdurdodau lleol nodi pa lwybrau rhwng aneddiadau sy'n briodol i gael eu cynnwys mewn rhwydwaith teithio llesol integredig. Os yw'n ddymunol i rwydwaith teithio llesol gysylltu aneddiadau sydd mewn gwahanol ardaloedd awdurdod lleol, dylai'r awdurdodau lleol hynny gydweithio i sicrhau bod yr holl lwybrau priodol wedi eu cynnwys ar y mapiau rhwydwaith integredig a'u hystyried ar gyfer gwelliannau. Wrth gynhyrchu'r mapiau llwybrau presennol ac unrhyw ddatganiad ac eglurhad i gyd-fynd â nhw, dylai awdurdodau lleol fod wedi nodi unrhyw lwybrau a allai fod yn rhan ddefnyddiol o'r rhwydwaith pe gwellid eu safon, a lle byddai llwybrau presennol yn elwa o gael eu cysylltu i greu rhwydwaith mwy cysylltiedig.

3.36 Mae'r Canllawiau Dylunio'n cynnwys methodoleg i awdurdodau lleol ar ddatblygu cynllun i greu rhwydwaith o lwybrau beicio a cherdded, ac mae gan Bennod 5 yn y Canllawiau adrannau penodol ar gynllunio rhwydwaith i helpu i oleuo'r broses hon.

3.37 Bydd angen i'r mapiau rhwydwaith integredig nodi manylion y cynlluniau a ddangosir (hyd yn oed lle mai'r unig fanylion yw'r ardal a'r canlyniad). Dylid rhifo pob cynllun a ddangosir ar y map a rhaid i'r map gael ei gefnogi gan restr gyfatebol o gynlluniau gyda manylion byr pellach. Lle mae cynllun wrthi'n cael ei ddatblygu, dylid rhoi manylion y prosiect a hefyd y dyddiad yn fras pryd y disgwylir iddo gael ei gwblhau a pha brosiect y mae'r cynllun hwn yn rhan ohono, e.e. "gwelliannau i'r danffordd, 2015, cynlluniau diogelwch ffyrdd", "llwybr aml-ddefnyddiwr di-draffig, 2016, rhan o welliannau i'r AXXX". Lle mae'r cynllun i'w ddatblygu yn y dyfodol, dylid cynnwys gymaint o fanylion sydd ar gael. Er enghraifft, "gwella mynediad teithio llesol i goleg Addysg Bellach, rhan o gynlluniau adnewyddu safle yn 2019", neu "creu llwybr teithio llesol uniongyrchol rhwng pentref A a thref P, 2020-25".

3.38 Nid yw'r map rhwydwaith integredig yn fap diffiniol, yn yr ystyr bod y mapiau hawliau tramwy'n fapiau diffiniol. Os bydd datblygiadau o ganlyniad yn golygu na fydd modd darparu'r map rhwydwaith integredig, dylid diweddarau'r map i adlewyrchu'r sefyllfa newydd. Dylai'r map gael ei arwain gan y datblygiadau, ni ddylai'r map benderfynu a ddylai datblygiad ddigwydd neu beidio. Lle mae'r map yn cynnwys ffactorau sy'n ystyriaethau datblygu pwysig (fel hawliau tramwy neu'r cynllun datblygu lleol), ni fydd y ffaith eu bod wedi eu cynnwys ar y map rhwydwaith integredig yn berthnasol i'r penderfyniad a wneir.

Fformat y Mapiau

3.39 Bydd y system rheoli data'n golygu y gellir cynhyrchu'r map llwybrau presennol a'r map rhwydwaith integredig ar sail templed safonol ac i gartograffeg safonol. Y fformat hwn y dylid ei ddefnyddio i gyflwyno'r mapiau i Weinidogion Cymru ar gyfer eu cymeradwyo.

3.40 Yr awdurdodau lleol sydd piau'r mapiau a medrant felly eu defnyddio i greu gwahanol fapiau teithio llesol ar gyfer eu hardal leol. Dylai fformat y mapiau weithio i hyrwyddo teithio llesol i'r cyhoedd. Ymhlith y fformatau y gallai awdurdodau lleol eu hystyried mae mapiau papur, digidol ac ar-lein lle byddai'n bosibl argraffu rhannau ohonynt neu ychwanegu neu dynnu allan haenau o wybodaeth am wahanol nodweddion. Gallai awdurdodau lleol hefyd ystyried fformatau penodol i hybu twristiaeth, cynorthwyo cynllun teithio gwaith gan gyflogwr mawr, neu i hyrwyddo darn newydd o seilwaith. Efallai y bydd awdurdod lleol am ddefnyddio'r wybodaeth yn y mapiau llwybrau presennol i greu mapiau ar gyfer cerddwyr yn unig, neu feicwyr yn unig, neu gategorïau penodol o'r ddau.

Llwybrau nad ydynt yn berchen i'r awdurdod lleol

3.41 Nid oes angen cael cytundeb tirlfeddiannwr i ddangos llwybrau teithio llesol ar y map llwybrau presennol lle mae'r llwybr yn hawl tramwy sy'n bodoli'n barod, ac i'r dosbarthiad priodol ar gyfer y defnydd a nodir ar y map (h.y. mynediad i gerddwyr os dangosir fel llwybr troed). Fodd bynnag, dylid gwneud ymdrechion i dynnu sylw'r tirlfeddiannwr at y map llwybrau presennol.

3.42 Os yw'r llwybr yn un caniatool, yna rhaid gofyn am ganiatâd y tirlfeddiannwr. Mewn llawer i achos, bydd nodyn i gadarnhau cytundeb yn ddigon. Dylid gwneud hyn wrth roi'r map at ei gilydd, cyn dechrau ymgynghori â'r cyhoedd ar y map. Os oes cyfyngiadau amser o ran pryd y gellir defnyddio llwybr caniatool, dylid nodi hyn ar y map.

3.43 Nid oes angen caniatâd i ddangos llwybrau posibl yn y dyfodol ar y mapiau rhwydwaith integredig, ond dylid gwneud ymdrech resymol i hysbysu ac ymgynghori â thirlfeddiannwyr lle bo hynny'n bosibl. Nid yw dangos llwybr ar fap yn golygu nad oes angen dilyn y drefn briodol ar gyfer gwella a chreu llwybrau (fel gorchmynion rheoleiddio traffig neu orchmynion creu llwybrau) a bydd gan dirfeddiannwyr sy'n anfodlon gweld y cynlluniau hyn yn cael eu deddfu ar eu tir gyfle i wrthwynebu yn y camau priodol.

Ymgynghori

3.44 Unwaith fydd map llwybrau presennol drafft wedi'i ddatblygu, dylai fod yn sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a ddylai redeg am 12 wythnos o leiaf. Wrth baratoi'r mapiau llwybrau presennol, o dan y Ddeddf rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â phawb a ofynnodd iddynt ymgynghori â nhw ac unrhyw bobl y tybient eu bod yn briodol.

3.45 Wrth ystyried gyda phwy i ymgynghori, yn ogystal â'r rhai a ofynnodd iddynt ymgynghori â nhw, dylai awdurdodau lleol fynd ati'n benodol i ymgysylltu â grwpiau gyda nodweddion a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dylai awdurdodau lleol ystyried pa fformat ar gyfer y map a'r ymgynghoriad sy'n cwrdd orau â'r ddyletswydd hon. Er enghraifft, drwy gynhyrchu fersiwn hawdd ei darllen o'r ymgynghoriad. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol gofio bod angen rhoi mynediad i'r ymgynghoriad i bobl gyda nam ar eu golwg oherwydd, wrth natur, bydd y map yn adnodd gweledol. Dylid hefyd cynllunio i gynnwys ffyrdd eraill, er enghraifft ymweliadau safle, o wneud yr hyn sydd ar y map yn glir i unrhyw un sydd ddim yn gallu defnyddio mapiau yn rhan o'r ymgynghoriad.

3.46 Felly hefyd, dylai awdurdodau lleol gymryd camau rhagweithiol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc a chefnogi eu rhan yng ngweithrediad y Ddeddf, gan adlewyrchu egwyddorion Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol dylai awdurdodau lleol ystyried Erthygl 2 (Dim Gwahaniaethu), Erthygl 3 (Er Lles Gorau'r Plentyn), Erthygl 6 (Hawliau'r Plentyn i Oroesi a Datblygu'n Iach), Erthygl 2 (Hawl y Plentyn i Gael ei Glywed) ac Erthygl 31 (Yr Hawl i Orffwys, Hamdden a Chwarae). Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc i gynllunio a sicrhau bod ymgysylltu effeithiol gyda phlant a phobl ifanc yn digwydd.

3.47 Dylai awdurdodau lleol ystyried ymgynghori â:

phartneriaid darparu, gan gynnwys: awdurdodau lleol cyfagos, Cynghorau Tref a Chymuned, Un Llais Cymru, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (lle bo'n briodol), Cyfoeth Naturiol Cymru, Glandŵr Cymru, Dŵr Cymru, Severn Trent Water a Dee Valley Water, Network Rail, Ystâd y Goron, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Coed Cadw a Llywodraeth Cymru;

y cyhoedd, gan gynnwys: unrhyw Fforwm Mynediad Lleol a sefydlwyd ar gyfer yr ardal neu ran ohoni, grwpiau cerdded a beicio, grwpiau ymgyrchu trafniadaeth, grwpiau Cymunedau yn Gyntaf, grwpiau hybu iechyd lleol, Siambrau Masnach Lleol, cyflogwyr mawr, undebau llafur, sefydliadau addysgol, canolfannau ieuencid a grwpiau anabled a phlant a phobl ifanc.

3.48 Mae'r awdurdod lleol, fel yr awdurdod priffyrdd, yn debygol o fod yn berchen ar gyfran helaeth o'r tir yr effeithir arno. Er hynny mae'n bwysig ystyried buddiannau deiliaid tir, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth, treftadaeth a chadwraeth natur. Dylid ymgynghori'n fuan â buddiannau perchnogion a rheolwyr tir er mwyn gwella dealltwriaeth o'r broses, lleihau unrhyw wrthdaro posibl a sicrhau dull cydweithredol o wella'r rhwydwaith. Gallai ymgynghori'n fuan helpu i adnabod unrhyw gyd-fanteision. Bydd mabwysiadu dull cydweithredol ar ddechrau'r broses hefyd yn helpu gyda gweithredu'r rhwydwaith.

3.49 Rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ar y mapiau rhwydwaith integredig am 12 wythnos, a gellir cyfuno hyn ag ymgynghori ar y map llwybrau presennol. Wrth ymgynghori â'r cyhoedd, bydd yn bwysig bod yn glir mai mapiau dyheadol yw'r mapiau rhwydwaith integredig. Er y byddant yn cynnwys cynigion ar gyfer seilwaith newydd a gwelliannau i seilwaith presennol sydd wrthi'n cael eu datblygu, byddant hefyd yn cynnwys cynlluniau posibl ar gyfer y 15 mlynedd nesaf lle bydd angen cael caniatâd cynllunio neu lle gallai digwyddiadau yn y dyfodol effeithio arnynt. Bydd yn bwysig bod yn glir ar hyn wrth ymgynghori â'r cyhoedd i sicrhau na fydd y broses yn creu disgwyliadau afrealistig ynghylch beth fydd i'w ddarparu ac erbyn pryd.

3.50 I gynnwys grwpiau nad ydynt yn teithio'n llesol ar hyn o bryd, gallai fod yn briodol ymgorffori ymgysylltu ar y mapiau o fewn digwyddiadau eraill yn y gymuned leol, neu gynnal digwyddiadau ar wahân mewn ysgolion, cyflogwyr mawr, archfarchnadoedd, ardaloedd siopa lleol neu gyrchfannau tripiâu posibl eraill.

3.51 Bydd gwahanol fathau o ymgynghori ar gael i wahanol bobl; gallai ymgynghori bywiog ar y stryd yng nghanol y dref ennyn diddordeb a chyffroi rhai pobl ond bydd hyn yn codi braw ar eraill ac yn eu hallgau. Mae'n bwysig felly defnyddio ystod o wahanol fathau o ymgynghori, gan gynnwys ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ymgynghori ar-lein lle bydd efallai angen defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

3.52 Mae angen i awdurdodau lleol ystyried y lefel briodol o fanylder i'w darparu wrth ymgynghori â'r cyhoedd. Mae darluniau peirianeg dechnegol yn debygol o gynnwys mwy o fanylion nag y bydd ei angen ac yn rhy gymhleth i'r person lleyg. Dylid marcio ac egluro unrhyw gynllun yn glir, ond dylai unrhyw fanylion technegol fod ar gael drwy wneud cais yn unig yn hytrach na bod yn annatod i'r deunyddiau ymgynghori.

3.53 Bydd ymgynghori ar y mapiau rhwydwaith integredig hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i gynlluniau'r awdurdodau lleol ar gyfer teithio llesol. Dylai awdurdodau lleol felly ystyried pa gyfleoedd a allai godi o ymgynghori i roi cyhoeddusrwydd i'r mapiau ac i hyrwyddo teithio llesol.

Cymeradwyo'r Mapiau

3.54 Wrth feddwl a ddylid cymeradwyo'r map a'r datganiad, bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried:

- a oes ymgynghori priodol, yn unol â'r canllawiau hyn, wedi digwydd;
- a yw'r llwybrau a'r cyfleusterau a ddangosir ar y map yn unol â'r canllawiau hyn;

- a yw ffurf y map yn unol â'r canllawiau hyn;
- a yw'r datganiad a'r eglurhad yn egluro mewn ffordd addas, yn unol â'r canllawiau hyn, pam fod unrhyw llwybrau nad ydynt yn cwrdd â'r safonau dylunio wedi eu cynnwys ar y mapiau.

3.55 Wrth feddwl a ddylid cymeradwyo'r mapiau rhwydwaith integredig, bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried:

- a oes ymgynghori priodol, yn unol â'r canllawiau hyn, wedi digwydd;
- a yw'r llwybrau a'r cyfleusterau a ddangosir ar y map yn unol â'r canllawiau hyn a'r canllawiau dylunio (er enghraifft, bod llwybrau nad ydynt yn cwrdd â'r safonau dylunio wedi eu nodi felly a bod cynllunio rhwydwaith a chynllunio cyrchfan priodol wedi bod);
- a yw ffurf y map yn unol â'r canllawiau hyn.

3.56 Dylid tynnu'r mapiau oddi ar y system rheoli data ar ffurf pdf, ac e-bostio'r mapiau i activetravel@wales.gsi.gov.uk.

3.57 O dan y Ddeddf mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y ffactorau uchod. Dylai awdurdodau lleol gyflwyno tystiolaeth o'r ymgynghori a wnaethant wrth gynhyrchu'r mapiau. Gallai hyn gynnwys crynodeb o unrhyw ddogfennau ymgynghori, gan gynnwys pwy oedd yn bresennol a'r prif bwyntiau trafod, ac unrhyw ddogfennau ymgynghori ffurfiol, crynodeb o'r ymatebion a manylion am sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad. Mae'r dogfennau hyn yn rhai y byddai awdurdodau lleol fel arfer yn eu cynhyrchu wrth gynnal ymgynghoriad agored. Bydd yn ddigon anfon gwe-ddolen i activetravel@wales.gsi.gov.uk i'r man lle caiff yr ymgynghoriadau eu rhoi ar dudalen gwe'r awdurdod lleol.

3.58 Efallai y bydd Gweinidogion Cymru'n gofyn i awdurdodau lleol ailgyflwyno mapiau os nad yw'r awdurdod wedi ymgynghori'n briodol; os na ystyriwyd y canllawiau hyn wrth ymgynghori ar a pharatoi'r mapiau, gan gynnwys beth y dylid ei ddangos ar y map a ffurf y map; a/neu yn achos y mapiau llwybrau presennol, os yw'r eglurhad a roddwyd ynghylch natur y llwybrau'n annigonol.

3.59 Os na fydd Gweinidogion Cymru'n cymeradwyo un o'r mapiau, neu'r ddau, bydd yr awdurdod lleol yn cael gwybod pam fod Gweinidogion Cymru'n ystyried eu bod yn annerbyniol. Gofynnir iddynt wneud diwygiadau priodol cyn ailgyflwyno'r map i'w gymeradwyo erbyn dyddiad penodedig gan Weinidogion Cymru. Nid oes cyfyngiad ar faint o weithiau y gallai Gweinidogion Cymru ofyn i'r mapiau gael eu diwygio a'u hailgyflwyno. Lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol ailgyflwyno map(iau) i'w cymeradwyo oherwydd na chawsant eu cymeradwyo'n flaenorol, ni fydd hyn yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer adolygu ac ailgyflwyno'r map(iau) wedyn.

3.60 Unwaith fydd Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r mapiau, y datganiadau a'r eglurhadau, dylid eu cyhoeddi.

Adolygu'r Mapiau

3.61 Rhaid i'r mapiau llwybrau presennol gael eu diwygio a'u hailgyflwyno i Weinidogion Cymru pob tro y cyflwynir y mapiau rhwydwaith integredig. Dylai pob adolygiad o'r mapiau gynnwys ymgynghori i sicrhau ei fod yn gywir. Fodd bynnag, dylai'r map fod yn ddiweddiariad sy'n adeiladu ar y fersiwn flaenorol, felly dylai fod yn ymarfer ymgynghori llawer llai.

3.62 Rhaid cyflwyno'r mapiau rhwydwaith integredig cyntaf o fewn tair blynedd i gychwyn adran 4 y Ddeddf, sy'n golygu y bydd pob map llwybrau presennol yn cael ei gyflwyno

am yr eildro ddwy flynedd ar ôl ei gyflwyno gyntaf. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yna ailgyflwyno pob map rhwydwaith integredig o fewn tair blynedd i'w cyflwyno diwethaf. O ganlyniad, bydd angen i drydydd cyflwyniad a phob cyflwyniad arall wedyn o'r mapiau llwybrau presennol fod pob tair blynedd, ar yr un pryd â chyflwyno'r mapiau rhwydwaith integredig. Rhoddir yr amserlen yn 3.4.

3.63 Os ydynt yn dewis, gall awdurdodau lleol ddiweddarau a chyhoeddi fersiynau o'r mapiau llwybrau presennol a'r mapiau rhwydwaith integredig yn amlach na hynny, heb gyfeirio at Weinidogion Cymru. O gofio mai prif bwrpas y mapiau llwybrau presennol yw rhoi gwybod i'r cyhoedd ble mae'r llwybrau teithio llesol, anogir awdurdodau lleol i ddiweddarau eu mapiau'n gyson. Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried sut i wneud y gorau o werth y mapiau rhwng adolygiadau, i helpu i gefnogi polisïau fel teithio llesol, twristiaeth, iechyd ac ati.

Dyletswyddau Adrodd

3.64 O ail gyflwyniad y map llwybrau presennol ymlaen, rhaid i awdurdodau lleol hefyd gyflwyno adroddiad ar faint y mae lefel y defnydd a wneir o lwybrau teithio llesol a'r cyfleusterau cysylltiedig yn ardal yr awdurdod lleol wedi newid ers i'r mapiau llwybrau presennol gael eu cyflwyno diwethaf. Rhaid iddynt hefyd gynhyrchu adroddiad blynyddol yn nodi'r gost o wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn i lwybrau teithio llesol a chyfleusterau ar gyfer y flwyddyn ariannol fwyaf diweddar.

3.65 Dylai'r ddau adroddiad fod yn fyr a medrant fod ar ffurf llythyr. Dylai'r adroddiad ar lefel y defnydd gynnwys gwybodaeth am faint a ddefnyddir ar y llwybrau a'r cyfleusterau pan gafodd y mapiau blaenorol eu cyflwyno, a faint a ddefnyddir ar y llwybrau a'r cyfleusterau pan gynhyrchir yr adroddiad. Lle cafodd lwybrau newydd eu creu, dylai'r data cychwynnol o ran y defnydd a wnaed o'r llwybrau ar adeg y cyflwyniad diwethaf fod yn sero. Fodd bynnag, os crëwyd llwybr newydd i gysylltu ardaloedd oedd wedi eu gwasanaethu o'r blaen gan lwybr llai addas, gwell efallai fyddai defnyddio lefel defnydd yr hen lwybr fel data cychwynnol i gymharu defnydd y llwybr newydd yn ei erbyn.

3.66 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi'r adroddiadau y maent yn eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ar newid yn lefel y defnydd, rhwng pob cyflwyniad o'r mapiau llwybrau presennol. Prif bwrpas yr adroddiadau yw monitro effaith y mapiau a'r seilwaith newydd ar faint o ddefnydd a wneir o'r llwybrau teithio llesol. Felly bydd yr adroddiadau o ddiddordeb i bartneriaid darparu a hefyd i unigolion a sefydliadau sydd â budd mewn monitro llwyddiant y mapiau ac unrhyw gynlluniau.

3.67 Dylai'r adroddiad ar y gost o wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn nodi'r cynlluniau a gwblhawyd i greu llwybrau teithio llesol newydd neu i wella llwybrau a'u cyfleusterau cysylltiedig, a'r costau ynghlwm wrth gyflawni'r cynlluniau hyn. Dylai'r adroddiad rychwantu'r flwyddyn ariannol lawn cyn y cyflwyniad (h.y. dylai adroddiad a gyflwynir yng Ngorffennaf 2015 nodi'r gwariant am y cyfnod rhwng Ebrill 2014 ac Ebrill 2015). Dim ond cyfansymiau sydd angen i'r ffigurau hyn fod ar gyfer bob prosiect, nid oes angen rhoi dadansoddiad ariannol manwl o bob elfen o'r cynllun.

3.68 Dylid cyflwyno'r ddau adroddiad ar ffurf electronig i activetravel@wales.gsi.gov.uk. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi'r adroddiadau a gyflwynir ganddynt i Weinidogion Cymru ar y gost o wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn i lwybrau teithio llesol a chyfleusterau. Bydd yr adroddiadau hyn yn helpu i sicrhau atebolrwydd ac, felly, rhaid iddynt fod ar gael i'r cyhoedd. Dylent fod ar gael yn hwylus ar-lein a hefyd ar gael mewn copi caled ar gais.

4. Cyhoeddi'r mapiau

Y Gofynion i Gyhoeddi

4.1 Dylai'r mapiau gorffenedig fod ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i Weinidogion Cymru gytuno ar y drafft a anfonwyd atynt i'w gymeradwyo.

4.2 O dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi'r mapiau, unrhyw ddatganiad ac eglurhad o lwybrau nad ydynt yn bodloni'r safonau dylunio, ac unrhyw adroddiad ar sut y mae'r defnydd a wneir o lwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig yn ardal yr awdurdod lleol wedi newid. Rhaid i awdurdodau lleol:

- gyhoeddi'r dogfennau hyn mewn ffordd y tybient i fod yn briodol;
- anfon copi am ddim i unrhyw un y tybient eu bod yn briodol;
- cyflenwi copi, yn ddi-dâl neu am y gost o ddarparu'r copi, i unrhyw berson sy'n gofyn am gopi;
- trefnu bod copi ar gael yn ystod pob awr resymol yn y manau y tybient eu bod yn briodol;
- tynnu sylw'r cyhoedd at ble mae copïau ar gael.

Cyhoeddi'r mapiau a'r datganiad a'r eglurhad

4.3 Prif bwrpas y mapiau llwybrau presennol yw rhoi gwybod i'r cyhoedd ble mae'r llwybrau teithio llesol presennol. Felly, mae angen i'r mapiau fod ar gael mewn ffordd sy'n hygyrch a defnyddiol i ddarpar deithwyr llesol yn eu hardal.

4.4 Nid yw'r mapiau rhwydwaith integredig "ar gyfer" y cyhoedd gymaint â'r mapiau llwybrau presennol. Fodd bynnag, bydd grwpiau cerdded a beicio am fod yn ymwybodol o'r mapiau rhwydwaith integredig felly dylai awdurdodau lleol geisio tynnu sylw'r grwpiau hyn at y mapiau yn y ffordd sydd fwyaf priodol i'w hardal nhw. Bydd y mapiau rhwydwaith integredig yn cyflawni sawl rôl, fel rhan o gynlluniau strategol, fel tystiolaeth ar gyfer dogfennau sy'n bidio am adnoddau ac i ddatblygu rhaglenni gwaith. Medrant hefyd fod yn ffordd o ennyn diddordeb cymunedau lleol a phartneriaid eraill mewn cynlluniau seilwaith teithio llesol ac, felly, bydd angen iddynt fod ar gael i gynulleidfa eang.

4.5 I gwrdd â'r gofynion i gyhoeddi, dylai awdurdodau lleol:

- drefnu bod copïau electronig o'r mapiau ar gael ar eu gwefan a sicrhau eu bod mor rhwydd â phosibl cael atynt;
- anfon copïau'n ddi-dâl i fannau cyhoeddus fel llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, canolfannau croeso, ysbytai, clinigau, meddygfeydd, ysgolion, colegau, prifysgolion a gorsafoedd bws a thrên;
- cynhyrchu fersiynau mewn unrhyw ieithoedd eraill y tybient i fod yn briodol yn ogystal â'r fersiynau Cymraeg a Saesneg;
- trefnu bod mapiau cyffyrddadwy mewn Braille a phrint bras ar gael o ofyn amdanynt.

4.6 I rai awdurdodau lleol, cyhoeddi'r mapiau ar-lein a'u dosbarthu'n electronig yw'r dull sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian. Gallai hyn olygu y gall awdurdodau lleol ddiweddarau'r wybodaeth yn haws a darparu nodweddion fel mapiau haenog i wahanol fathau o ddefnyddwyr. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn ardaloedd lle defnyddir cryn dipyn ar y we, mae llawer o hyd na fedrant neu sy'n dewis peidio â defnyddio'r rhyngrwyd. Mae hyn yn

arbennig o wir yn achos pobl hŷn. Felly bydd bob amser angen cyflenwad o gopiâu caled. Wrth gynhyrchu copiâu caled o'r mapiau, dylai awdurdodau lleol ystyried pa mor aml y bwriedir diweddarau'r mapiau i adlewyrchu seilwaith newydd neu well.

4.7 Anogir awdurdodau lleol i dynnu sylw'r boblogaeth leol at y mapiau mewn ffordd sy'n briodol i'w hardal nhw.

4.8 Gellir hefyd defnyddio'r mapiau i oleuo prosiectau eraill fel cynlluniau teithio personol ac i ddatblygu apps a gwefannau. Dylai'r mapiau fod ar gael yn hwylus a di-dâl i gyrff sy'n gwneud y gwaith hwn fel y medrant wella'r ffordd y darperir gwybodaeth.

4.9 Mae hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi unrhyw ddatganiad ac eglurhad ar gyfer llwybrau a gawsant eu cynnwys ar y mapiau llwybrau presennol ond nad ydynt yn bodloni'r safon yn y canllawiau dylunio. Bydd y datganiad a'r eglurhad o ddiddordeb i bobl fydd efallai am ddefnyddio llwybrau sy'n anghyfarwydd iddynt fel y medrant weld a yw'r llwybr yn addas i'w hanghenion. Er y dylid trefnu bod copiâu caled o'r datganiad a'r eglurhad ar gael ochr yn ochr â chopïâu caled o'r mapiau llwybrau presennol, mae'n debyg na fydd gymaint o alw amdanynt.

5. Sicrhau gwelliannau parhaus i lwybrau teithio llesol a chyfleusterau

5.1 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wneud gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn i'w llwybrau teithio llesol a chyfleusterau. Nid yw'r Ddeddf yn mynnu ar leiafswm o welliannau. Yn hytrach, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud gwelliannau parhaus a dangos bod eu seilwaith teithio llesol wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol.

5.2 O dan y ddyletswydd hon, rhaid i awdurdodau lleol wella ansawdd eu llwybrau presennol a'r chyfleusterau. Bydd y broses o greu'r map llwybrau presennol yn dangos ble byddai gwelliannau i'r rhwydwaith teithio llesol o fantais. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd adeiladu seilwaith teithio llesol newydd, yn ogystal â gwella'r seilwaith presennol. Bydd y map rhwydwaith integredig yn dangos lle mae angen seilwaith newydd a lle chynlluniwyd y gwaith hwn.

5.3 Gall awdurdodau lleol ddangos eu bod wedi cyflawni'r ddyletswydd hon mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, drwy ddiwygio'r mapiau llwybrau presennol. Pan ddaw'n amser gwneud adolygiad tair blynedd, dylai fod gwahaniaeth mesuradwy rhwng y map llwybrau presennol blaenorol a'r un newydd.

5.4 Y ffordd arall fydd drwy'r adroddiadau ar gyfraddau teithio llesol yn yr awdurdodau lleol. Mae paragraffau 3.64-3.68 yn manylu ar yr adroddiadau. Bydd yr adroddiadau hyn yn dangos yr effaith y mae'r gwelliannau i'r seilwaith teithio llesol yn ei chael ar ymddygiad teithio.

5.5 Gyda'i gilydd, defnyddir y dangosyddion hyn i weld pa mor dda, neu ddim, y cyflawnodd yr awdurdod lleol ei ddyletswydd i wella'n barhaus. Bydd hyn yn dangos y newid yn lefel y seilwaith, a'r newid o ran sut y'i defnyddir.

Gwneud a blaenoriaethu gwelliannau

5.6 Pob blwyddyn yn eu hardal, bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a gwell, a chyfleusterau cysylltiedig. O flwyddyn i flwyddyn, dylai awdurdodau lleol wneud gwelliannau i'r llwybrau a ddangosir ar y mapiau rhwydwaith integredig. Mae'r llwybrau hyn wedi eu nodi fel llwybrau strategol a fydd, gyda'i gilydd, yn creu

rhwydwaith integredig. Dylai'r ffocws fod ar ddarparu'r llwybrau hyn, a'r cyfleusterau sy'n eu gwasanaethu.

5.7 Wrth wneud gwelliannau, un o'r amcanion a ddylai fod gan yr awdurdodau lleol yw creu rhwydwaith i alluogi siwrneiau teithio llesol. Dylai awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i'r llwybrau fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gynyddu cyfraddau teithio llesol a nifer y bobl sy'n dewis defnyddio'r llwybrau hyn. Mae Pennod 5 yn y canllawiau dylunio'n rhoi cyngor ar flaenoriaethu a chynllunio buddsoddiadau.

5.8 Dylai awdurdodau lleol daro cydbwysedd rhwng gwella llwybrau a chyfleusterau presennol, adeiladau llwybrau a chyfleusterau newydd, a gwneud llwybrau a chyfleusterau'n fwy hygyrch. Bydd unrhyw lwybrau neu gyfleusterau teithio llesol newydd neu well fydd yn cael effaith ar gyfraddau teithio llesol ac yn cyfrannu at ddarparu'r rhwydwaith integredig yn cael eu hystyried i fod yn cyfrannu at gwrdd â'r ddyletswydd i wella'n barhaus.

5.9 Mater i'r awdurdodau lleol fydd penderfynu sut orau i gynllunio ar gyfer darparu eu rhwydwaith integredig. O dan adran 6 y Ddeddf, bydd y mapiau rhwydwaith integredig yn goleuo datblygiad y cynlluniau trafndiaeth lleol. Fodd bynnag, mae darparu teithio llesol yn fwy na gweithgareddau trafndiaeth, a gallai fod yn rhan o gynllunio tref, rheoli'r amgylchedd, datblygiadau tai a mwy. Wrth ddarparu'r rhwydwaith integredig, dylai awdurdodau lleol gofio mai'r nod yw cynyddu cyfraddau teithio llesol a nifer y bobl sy'n dewis teithio'n llesol. Dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar ddarparu'r rhannau o'r rhwydwaith fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gynyddu cyfraddau teithio llesol a nifer y bobl sy'n dewis teithio'n llesol.

5.10 Fel arfer, awdurdodau lleol a fyddai'n arwain ar lunio a sicrhau y gweithredir cynigion i weithredu yn achos hawl tramwy, er nad oes raid i hyn ddigwydd. Mae amrywiaeth o drefniadau partneriaeth yn bosibl, gan gynnwys partneriaethau â chynghorau tref a chymuned, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol neu grwpiau lleol eraill. Dylai awdurdodau lleol ystyried ystod o opsiynau darparu wrth weithredu eu rhwydweithiau teithio llesol. Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried ffyrdd gwahanol eraill o gyflawni'r gwaith, er enghraifft drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr yn lle contractio.

Cynnwys Tirfeddianwyr

5.11 Bydd rhai o'r llwybrau teithio llesol presennol neu bosibl yn hawliau tramwy ar dir nad yw'n berchen i'r awdurdod lleol. Yn yr achosion hyn, gall awdurdodau lleol sicrhau gwelliannau i'r llwybrau hyn drwy gytundeb lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Wrth greu llwybrau neu ychwanegu hawliau uwch ar gyfer llwybrau presennol, anogir awdurdodau lleol i negodi drwy ddod i gytundeb â thirfeddianwyr yn defnyddio eu pwerau o dan adran 25 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Dylai awdurdodau lleol ddod at y bwrdd negodi'n adeiladol a bod yn barod i ystyried newidiadau i'r rhwydwaith y bydd y tirfeddianwr efallai'n gofyn amdanynt fel rhagofynion i gytundeb, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf yn adrannau 118 ac 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Fodd bynnag, dylent osod terfyn amser rhesymol ar gyfer dod i gytundeb.

5.12 Pe bai'n dod yn glir nad oes fawr o obaith dod i gytundeb mewn amser rhesymol, gall awdurdod ddefnyddio ei bwerau o dan adran 26 y Ddeddf i greu hawliau tramwy cyhoeddus. Gellir defnyddio adran 26 i greu llwybrau newydd neu i ychwanegu hawliau uwch at lwybrau presennol. Wrth greu llwybrau newydd, bydd hefyd angen i awdurdod lleol ystyried a chymryd cyngor priodol ar unrhyw iawndal y bydd efallai angen cytuno arno â thirfeddianwr.

5.13 Wrth ddatblygu'r mapiau rhwydwaith integredig, dylai awdurdodau lleol fod wedi ymgynghori â thirfeddianwyr lle bwriedir gwneud gwelliannau neu ehangu'r rhwydwaith presennol ar eu tir. Nid yw'r ymgynghori hyn yn golygu na fydd angen dilyn y drefn briodol wrth greu neu wella llwybrau rhywbryd eto (fel gorchmynion rheoleiddio traffig neu orchmynion creu llwybrau).

6. Darparu ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau penodol

6.1 O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth arfer eu swyddogaethau o dan Rannau 3,4,5,9 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 cyn belled ag y bo'n ymarferol gwneud hynny.

6.2 Mae Rhannau 3, 4, a 5 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn ymwneud â chreu, cynnal a chadw a gwella priffyrdd, yn y drefn hon. Er mwyn cwrdd â'u dyletswydd o dan adran 9 y Ddeddf, rhaid i awdurdodau priffyrdd wella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth adeiladu, cynnal a chadw neu wella unrhyw briffordd oni bai y byddai'n afresymol neu'n anymarferol gwneud hynny.

6.3 Byddai rhai amgylchiadau, lle gallai awdurdodau priffyrdd ystyried y byddai'n afresymol neu'n anymarferol gwella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth adeiladu, gwella neu gynnal a chadw priffyrdd, yn cynnwys:

- mae'r pellter y byddai angen ei deithio ar hyd llwybr newydd i gysylltu aneddiadau/gwasanaethau/cyfleusterau'n ei gwneud yn amhriodol darparu ar gyfer cerdded neu feicio;
- nid yw'n bosibl gwneud darpariaeth ddiogel ar gyfer cerddwyr neu feicwyr fel rhan o'r gwaith adeiladu neu wella;
- ni ellir darparu cyswllt priodol i ddarpariaeth sy'n bodoli'n barod, gan greu darn o seilwaith ar ei ben ei hun na fyddai'n bosibl ei gyrraedd yn ddiogel o ganlyniad.

Fodd bynnag, rhagdybir y bydd gwelliannau'n cael eu darparu mewn cynllun newydd neu wrth gynnal a chadw lle mae'n ymarferol gwneud hynny.

6.4 Dylai gwelliannau a wneir i'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr wrth adeiladu neu wella priffyrdd fod yn gymesur â'r gwaith adeiladu neu welliannau dan sylw. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn a fyddai'n gymesur:

- Ar gyfer priffordd newydd, darparu llwybr beicio a phafin ar wahân.
- Wrth wella goleuadau, sicrhau bod y golau i gerddwyr a beicio'n addas, a'i wella os nad ydyw.
- Wrth ail-wynebu priffordd, marcio ffyrdd i greu lonydd beicio addas neu i dynnu sylw at groesfannau i gerddwyr.

6.5 Mae Rhan 9 yn y canllawiau dylunio'n rhoi mwy o wybodaeth am greu seilwaith teithio llesol newydd. Ni fydd pob llwybr a ddatblygir o dan y ddyletswydd hon yn llwybr teithio llesol fel y diffinnir yn y Ddeddf, ond mae'r canllawiau dylunio er hynny'n arfer da i'w ddilyn.

6.6 Mae Rhan 9 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn ymwneud ag ymyrryd â phriffyrdd. I gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol wella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth ganiatáu neu orfodi yn erbyn ymyrryd â phriffyrdd, lle mae'n ymarferol gwneud hynny. Er enghraifft, wrth reoli gwaith tyllu yn y briffordd, dylai awdurdodau lleol geisio gwella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth adfer y briffordd wedyn.

6.7 Mae Rhan 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn ymwneud â phrynu, breinio a throsglwyddo tir i bwrpas priffyrdd. I gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau priffyrdd wella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth brynu tir i adeiladu priffordd, lle mae'n ymarferol gwneud hynny. Er enghraifft, wrth brynu tir i adeiladu ffordd, dylai awdurdodau lleol hefyd brynu tir i greu llwybrau teithio llesol a chymryd bod y pellter rhwng aneddiadau/gwasanaethau/cyfleusterau'n addas a bod modd cysylltu'r llwybr i lwybrau eraill pe bai angen.

6.8 Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn bod awdurdodau priffyrdd yn rhoi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer eu swyddogaethau o dan Rannau 1, 2, 4 a 7 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Rhan 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Rhan 2 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

6.9 Mae Rhannau 1 a 2 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn ymwneud â darpariaethau cyffredinol i reoleiddio traffig yn y naill achos, a rheoleiddio traffig mewn achosion arbennig yn y llall. I gwrdd â'u dyletswyddau o dan yr adran hon yn y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth wneud gorchymynion rheoleiddio traffig sy'n gwahardd, cyfyngu ar neu'n rheoleiddio defnydd o ffordd, gan gynnwys ffyrdd a ddefnyddir gan gerddwyr a beicwyr. Er enghraifft, os yw awdurdodau lleol neu Weinidogion Cymru'n gwneud gorchymyn rheoleiddio traffig i gau ffyrdd er mwyn cynnal digwyddiad, dylent ystyried yr effaith ar gerddwyr a beicwyr wrth benderfynu gwneud y gorchymyn a chymryd unrhyw gamau lliniaru angenrheidiol wrth wneud y gorchymyn, fel cyflwyno trefniadau gwyro addas.

6.10 Mae Rhan 4 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn ymwneud â pharcio. I gwrdd â'u dyletswyddau o dan yr adran hon yn y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth ddarparu parcio oddi ar y stryd, awdurdodi parcio ar y stryd a mannau llwytho ac wrth brynu tir ar gyfer parcio. Er enghraifft, dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr wrth awdurdodi parcio ar y stryd, yn enwedig lle byddai'n cael effaith negyddol ar lwybrau beicio ar y ffordd. Os yw awdurdodau lleol am awdurdodi parcio ar y stryd lle byddai'n cael effeithiau negyddol ar gerddwyr a beicwyr, dylid ystyried darpariaeth o fath gwahanol i liniaru'r effeithiau hyn.

6.11 Mae Rhan 7 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn ymwneud â bolardiau a rhwystrau eraill. Wrth osod bolardiau neu rwystrau eraill i atal mynediad i gerbydau, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr. Dylai awdurdodau lleol ystyried a oes angen gwahardd mynediad i gerddwyr a/neu feicwyr. Os nad oes, dylent sicrhau bod unrhyw rwystrau wedi eu dylunio fel nad ydynt yn atal mynediad i gerddwyr a/neu feicwyr. Mae'r canllawiau dylunio'n rhoi arweiniad pellach ar ddylunio rhwystrau.

6.12 Mae Rhan 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 yn ymwneud â gwaith stryd. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth:

- roi trwyddedau gwaith stryd;
- rhoi cyfarwyddyd ynghylch amseru gwaith stryd;
- gosod cyfarpar;
- cyfyngu ar waith stryd yn dilyn gwaith ffordd sylweddol;
- arfer eu dyletswydd i gydgysylltu gwaith, a
- rhoi caniatâd i osod cyfarpar ar stryd a warchodir.

6.13 Dylai awdurdodau lleol ystyried yr effaith y gallai gwaith stryd ei chael ar gerddwyr a beicwyr wrth benderfynu rhoi trwydded neu beidio a dylent geisio lleihau unrhyw aflonyddwch i gerddwyr a beicwyr wrth roi unrhyw gyfarwyddyd neu osod unrhyw gyfyngiadau ar waith stryd.

6.14 Mae Rhan 2 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 yn ymwneud â rheoli'r rhwydwaith gan awdurdodau traffig lleol. O dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i reoli eu rhwydwaith ffyrdd gyda golwg ar gyflawni, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol o ystyried eu hymrwymiadau, polisïau ac amcanion eraill, yr amcanion canlynol—

- (a) sicrhau bod traffig yn symud yn hwylus ar hyd rhwydwaith ffyrdd yr awdurdod; a
- (b) cynorthwyo traffig i symud yn hwylus ar rwydweithiau ffyrdd lle mai awdurdod arall yw'r awdurdod traffig ar eu cyfer.

6.15 O dan y ddyletswydd hon, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau symudiad hwylus holl ddefnyddwyr y ffordd, gan gynnwys cerddwyr a beicwyr. Rhaid i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod mesurau i sicrhau bod traffig yn symud yn hwylus yn ddiogel i holl ddefnyddwyr y ffordd.

6.16 I gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth osod blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau ynghylch sut i sicrhau bod traffig yn symud yn hwylus.

7. Dyletswydd i arfer swyddogaethau i hyrwyddo teithio llesol

7.1 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn ffordd sy'n hyrwyddo siwrneiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau presennol. Mae amryw o ffyrdd y gallai awdurdodau lleol hyrwyddo teithio llesol ac ni ddylid meddwl bod y canlynol yn rhestr gynhwysfawr. Mae Llywodraeth Cymru'n gryf o blaid hyrwyddo teithio llesol, ac mae'n cynhyrchu pecyn i gefnogi awdurdodau lleol i gwrdd â'r ddyletswydd hon.

7.2 Un o brif swyddogaethau'r awdurdodau lleol o dan y Ddeddf yw cynhyrchu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r mapiau. Dylai awdurdodau lleol ystyried sut y dylid fformatio'r mapiau i sicrhau'r manteision gorau i'w hardal ac i helpu i hyrwyddo teithio llesol. Awgrymwn fod awdurdodau lleol yn holi am gyfleoedd i hysbysebu, gan noddwyr er enghraifft, wrth gyhoeddi eu mapiau. Gallai hyn helpu i hyrwyddo teithio llesol ymhellach, a helpu i dalu am rai o'r costau cyhoeddi.

7.3 Dylai awdurdodau lleol ystyried sut fath o fformat ar gyfer y map fydd yn targedu darpar deithwyr llesol yn eu hardal yn effeithiol. Efallai y bydd awdurdodau lleol am gynhyrchu map llwybrau presennol mewn fformat sy'n dangos cyrchfannau twristiaeth lleol a'r llwybrau teithio llesol sy'n eu cysylltu, neu weithio â chyflogwyr mawr i ddangos mynediad at weithleoedd ar hyd llwybrau teithio llesol. Lle mae awdurdodau lleol yn defnyddio fformat penodol i dargedu cynulleidfa neilltuol, dylent ystyried unrhyw hyrwyddo cysylltiedig a fyddai'n helpu'r grwpiau hyn i wneud mwy o deithio llesol. Er enghraifft os bydd awdurdodau lleol yn cynhyrchu map yn dangos mynediad at weithleoedd, dylent ystyried trefniadau hyrwyddo eraill a fyddai'n annog pobl i ddefnyddio llwybrau teithio llesol i gyrraedd eu gwaith, fel cynlluniau teithio personol.

7.4 Dylai awdurdodau lleol geisio gweithio'n gydweithredol i hyrwyddo teithio llesol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau awdurdod lleol, ond hefyd gyda byrddau iechyd a chyrff gwirfoddol fel Sustrans. Drwy wneud hyn, dylai awdurdodau lleol geisio datblygu cynlluniau dychmygus ar gyfer hyrwyddo teithio llesol. Nid oes raid iddynt fod yn gynlluniau costus; medrant ymgorffori opsiynau cost isel fel annog cynlluniau beicio i weithio a chymell cyflogwyr mawr i hyrwyddo teithio llesol ymhlith eu staff ac ati.

Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol osod esiampl, drwy hyrwyddo teithio llesol ymhlith eu staff eu hunain.

7.5 Dylai awdurdodau lleol hyrwyddo lleoliad llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwell. Bydd penderfynu pa hyrwyddo sy'n briodol yn dibynnu ar y seilwaith sydd wedi'i adeiladu neu ei wella. Lle daw llwybrau newydd ar gael, dylai awdurdodau lleol eu hyrwyddo i'r ardal leol a wasanaethir gan y llwybr newydd. Gellir gwneud hyn drwy godi arwyddion ar gyfer y llwybr newydd o lwybrau eraill ac o briffyrdd cyfagos. Os bydd awdurdodau lleol yn cynnal unrhyw weithgareddau cyfathrebu i hyrwyddo'r seilwaith newydd, dylent hefyd ystyried a oes unrhyw gyfle i hyrwyddo teithio llesol fel dull trafndiaeth deniadol. Efallai y bydd awdurdodau lleol eisiau cynnwys negeseuon am fanteision teithio llesol, gan gynnwys y manteision iechyd, amgylcheddol, ariannol, arbed amser a lles a allai ddeilio o deithio'n llesol wrth gyfathrebu a rhoi gwybod i bobl am y seilwaith newydd.

7.6 Rhaid i awdurdodau lleol adrodd ym mhob blwyddyn ariannol i Weinidogion Cymru ar sut wnaethant ddarparu swyddogaethau o dan y Ddeddf mewn ffordd sy'n hyrwyddo siwrneiau teithio llesol. Dylai'r adroddiad hwn, a allai fod ar ffurf llythyr, nodi'r gwaith a wnaed gan unrhyw un o adrannau'r awdurdod lleol i hyrwyddo teithio llesol, gan gynnwys gweithgareddau i hybu iechyd neu warchod yr amgylchedd yn ogystal â gweithgareddau trafndiaeth. Nid oes raid i'r adroddiad fynd i fanylder ynghylch pob prosiect, a gall fod yn grynoded (oni bai fod yr awdurdod lleol eisiau rhoi mwy o fanylion fel rhan o gwrdd ag amcanion ei bolisi teithio llesol lleol).

Pwerau a Dyletswyddau a Grëwyd gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Pwerau gan awdurdodau lleol

A.2(1)(b) – y pŵer i benderfynu a yw llwybr yn briodol ar gyfer teithio llesol.

A.3(10)(b) – y pŵer i ddiwygio'r map llwybrau presennol heb fod angen ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.

A.4(2) – y pŵer i benderfynu pa seilwaith sydd ei angen i ddatblygu neu wella'r rhwydwaith teithio llesol.

Dyletswyddau sydd gan awdurdodau lleol

A.2(6) – dyletswydd i ystyried ffactorau a chanllawiau penodol wrth benderfynu a yw llwybr yn briodol ar gyfer teithio llesol neu beidio.

A.3(1) – dyletswydd i baratoi map llwybrau presennol, a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

A.3(3) – dyletswydd i ymgynghori ar y mapiau llwybrau presennol.

A.3(4) – dyletswydd i roi sylw i'r canllawiau ar baratoi ac ymgynghori ar y map llwybrau presennol.

A.3(5) – dyletswydd i gyflwyno'r map llwybrau presennol o fewn amserlen benodol.

A.3(6) – dyletswydd i gyflwyno datganiad ac eglurhad o safonau llwybrau ar y map llwybrau presennol i Weinidogion Cymru.

A.3(7) – dyletswydd i gyflwyno adroddiad ar y newid yn lefel y defnydd a wneir o seilwaith teithio llesol pob tro yr ailgyflwynir y map llwybrau presennol i'w gymeradwyo (dim ond ar ôl y map cyntaf).

A.3(10)(a)-(c) – dyletswydd i adolygu'r map llwybrau presennol yn gyson a'i ailgyflwyno i'w gymeradwyo pob tro y cyflwynir y map rhwydwaith integredig i'w gymeradwyo.

A.4(1) – dyletswydd i baratoi map rhwydwaith integredig, a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

A.4(3) – dyletswydd i ymgynghori ar y map rhwydwaith integredig.

A.4(4) – dyletswydd i ystyried pa mor ddymunol yw teithio llesol wrth baratoi'r map rhwydwaith integredig.

A.4(5) – dyletswydd i roi sylw i'r canllawiau ar baratoi ac ymgynghori ar y map rhwydwaith integredig.

A.4(6) – dyletswydd i gyflwyno'r map rhwydwaith integredig o fewn amserlen benodol.

A.4(9)(a)-(c) – dyletswydd i adolygu'r map rhwydwaith integredig yn gyson, a'i ailgyflwyno i'w gymeradwyo pob tair blynedd.

A.5(1)-(3) – dyletswydd i gyhoeddi'r mapiau a'r datganiad a'r eglurhad.

A.5(2) – dyletswydd i roi sylw i'r canllawiau ar gyhoeddi mapiau.

A.6 – dyletswydd i roi sylw i'r map rhwydwaith integredig wrth baratoi cynlluniau trafndiaeth lleol.

A.7(1) – dyletswydd i wella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol yn barhaus.

A.7(2) – dyletswydd i roi sylw i'r canllawiau ar wella'n barhaus.

A.7(3) – dyletswydd i adrodd i Weinidogion Cymru ar y gost o wneud gwelliannau parhaus.

A.9(1) – dyletswydd i gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth teithio llesol wrth arfer swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

A.9(2) – dyletswydd i roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau rheoli traffig penodol.

A.(10)(1) – dyletswydd i arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn ffordd sy'n hyrwyddo teithio llesol a sicrhau mwy o seilwaith teithio llesol.

A.10(2) – dyletswydd i adrodd i Weinidogion Cymru ar yr hyn a wnaeth yr awdurdod lleol i gwrdd â'i ddyletswydd o dan a.10(1).

Pwerau gan Weinidogion Cymru

A.2(4) – y pŵer i wneud Cyfarwyddyd ar ardaloedd dynodedig.

A.2(6) – y pŵer i gyhoeddi canllawiau ynghylch a yw llwybr yn briodol ar gyfer teithio llesol (y Canllawiau Dylunio).

A.2(9) – y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar gyfleusterau cysylltiedig (y Canllawiau Dylunio).

A.3(4) – y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar baratoi ac ymgynghori ar y map llwybrau presennol*.

A.3(5) – y pŵer i amrywio, drwy gyfarwyddyd, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r map llwybrau presennol.

A.3(8) – y pŵer i ofyn bod yr awdurdod lleol yn diwygio ac ailgyflwyno map llwybrau presennol os ydynt yn penderfynu peidio ei gymeradwyo.

A.3(5) – y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar baratoi ac ymgynghori ar y map rhwydwaith integredig.

A.4(6)(b) – y pŵer i amrywio, drwy gyfarwyddyd, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r map rhwydwaith integredig.

A.4(7) – y pŵer i ofyn bod yr awdurdod lleol yn diwygio ac ailgyflwyno map rhwydwaith integredig os ydynt yn penderfynu peidio ei gymeradwyo.

A.4(10) – y pŵer i amrywio, drwy gyfarwyddyd, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r map rhwydwaith integredig.

A.5(2) – y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar gyhoeddi'r mapiau.

A.7(2) – y pŵer i gyhoeddi canllawiau ar wella'n barhaus.

A.12(1) – y pŵer i amrywio neu ddiddymu canllawiau a chyfarwyddiadau a gyhoeddir o dan y Ddeddf hon.

A.14 – y pŵer i gychwyn y Ddeddf drwy Orchymyn.

Dyletswyddau sydd gan Weinidogion Cymru

A.3(9) – dyletswydd i ystyried ffactorau penodol wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r mapiau llwybrau presennol neu beidio.

A.4(8) – dyletswydd i ystyried ffactorau penodol wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r mapiau rhwydwaith integredig neu beidio.

A.8 – dyletswydd i wneud a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar faint a pha mor aml y gwneir siwrneiau teithio llesol yng Nghymru.

A.9(1) – dyletswydd i gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth teithio llesol wrth arfer swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

A.9(2) – dyletswydd i roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau rheoli traffig penodol.

A.(10)(1) – dyletswydd i arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn ffordd sy'n hyrwyddo teithio llesol a sicrhau mwy o seilwaith teithio llesol.

A.11 – dyletswydd i adolygu'r Ddeddf yn llawn bum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r map rhwydwaith integredig cyntaf.

A.12(2) – dyletswydd i roi sylw i ba mor ddymunol yw teithio llesol wrth amrywio neu ddiddymu Cyfarwyddyd a chanllawiau.

Cyfarwyddyd yn dynodi ardaloedd o dan y Ddeddf Teithio Llesol

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

At holl gynghorau sir a bwrdeistref sirol Cymru

Cyfarwyddyd yn dynodi ardaloedd yng nghyswllt llwybrau teithio llesol

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a drosglwyddir iddynt gan adran 2(4) a (5) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") yn gwneud y Cyfarwyddyd canlynol.

Cefndir statudol

O dan adran 2(1) y Ddeddf, darperir bod llwybr mewn ardal awdurdod lleol, i bwrpas y Ddeddf, yn llwybr teithio llesol os –

- a) mae'r llwybr wedi'i leoli mewn ardal ddynodedig yn yr ardal, a
- b) mae'r awdurdod lleol o'r farn ei bod yn briodol iddo gael ei ystyried fel llwybr teithio llesol.

O dan adran 2(4) y Ddeddf, darperir bod "dynodedig", yn y Ddeddf, yng nghyswllt ardal, yn golygu penodedig, neu ddisgrifiad penodedig, mewn cyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru. O dan adran 2(5), darperir y gall Gweinidogion Cymru, yn benodol, nodi ardal, neu ddisgrifiad o ardal, drwy gyfeirio at –

- a) dwysedd y boblogaeth;
- b) maint;
- c) agosrwydd at ardaloedd dwys eu poblogaeth sy'n fwy na maint penodol;
- d) lleoliad rhwng ardaloedd o'r fath;
- e) agosrwydd at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol;
- f) y potensial am resymau eraill i fod yn ardal, neu'n ddisgrifiad o ardal, lle caiff mwy o siwrneiau teithio llesol eu cyflawni gan gerddwyr a beicwyr.

Y Cyfarwyddyd

Wrth arfer y pwerau uchod o dan y Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo mai'r ardaloedd dynodedig i bwrpas y Ddeddf yw'r ardaloedd hynny yng Nghymru sy'n benodedig yn yr Atodlen isod o dan y pennawd 'Ardal ddynodedig'. Dangosir yr ardaloedd yn fwy penodol ar y map yn:

www.maps.google.com/gallery/details?id=z_Jq-ochhCD4.kxSuDhUrEQTU&hl=en-GB

i gyd-fynd â'r Cyfarwyddyd hwn. Er mwyn hwylustod, mae'r tabl isod yn nodi pa ddinasoedd, trefi a phentrefi sydd wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig (lle mae'r ardal ddynodedig yn cynnwys nifer o aneddiadau), poblogaeth yr ardal ddynodedig, a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am yr ardal ddynodedig honno. Mae'r rhannau mewn glas yn nodi bod yr ardaloedd dynodedig yn croesi ffiniau awdurdod lleol a'r rhannau mewn melyn yn golygu eu bod yn dod o fewn un ardal awdurdod lleol.

Mae'r ardaloedd dynodedig yn deillio o ddata ar Ardaloedd Adeiledig gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Caiff yr Ardaloedd Adeiledig eu nodi drwy rannu Cymru'n sgwariau 50 metr wrth 50 metr. Mae'r prif ddefnydd tir ym mhob sgwâr yn cael ei nodi naill ai

fel adeiledig neu ddi-adeiledig (yn cynnwys adeiladau a seilwaith tebyg, neu'n wag o ddatblygiad). Lle mae sgwariau adeiledig yn eistedd wrth ymyl ei gilydd, cyfunir hwynt yn ardaloedd adeiledig mwy.

Os yw aneddiadau o fewn 200 metr i'w gilydd, cysylltir hwynt i greu un 'Ardal Adeiledig'. Mae llawer o'r Ardaloedd Adeiledig hyn yn gyfuniad o nifer o drefi a phentrefi sy'n agos at ei gilydd a/neu at ardal ddwys ei phoblogaeth fwy. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r gwir batrwm datblygu yn hytrach na rhaniadau ffiniau gweinyddol rhwng gwahanol aneddiadau.

Mae'r ardaloedd dynodedig wedi eu henwi yn ôl y dref neu'r ddinas fwyaf yn yr ardal, ond mae llawer yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau gweinyddol y dref neu'r ddinas honno. Lle mae'r ardaloedd sydd wedi eu lliwio ar y map yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau gweinyddol y dref neu'r ddinas a enwir, dylai awdurdodau lleol ddilyn y ffiniau sydd wedi eu lliwio ar y map.

Nid oes angen i awdurdodau lleol fapio ardaloedd yn Lloegr sydd gerllaw eu ffiniau.

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Caerdydd		447,287	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Caerffili	41,402	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Caerdydd	335,145	Cyngor Dinas Caerdydd
	Dinas Powys	7,490	Cyngor Bro Morgannwg
	Penarth	27,226	Cyngor Bro Morgannwg
	Pontypridd	30,457	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Ffynnon Taf	5,567	Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Casnewydd		306,844	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Dinas Casnewydd
	Aberbargoed	994	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Abercarn	5,352	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Abersychan	7,573	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
	Bargoed	11,537	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Coed-duon	24,042	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Cwmbrân	46,915	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
	Trecelyn	9,590	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Casnewydd	128,060	Cyngor Dinas Casnewydd
	Pontllanfraith	9,220	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Pontypŵl	28,334	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
	Rhisga	14,958	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Wattsville	1,065	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Ystrad Mynach	19,204	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Abertawe		300,352	Cyngor Dinas a Sir Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Powys
	Glais	838	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
	Tre-gŵyr	8,183	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
	Castell-nedd	50,658	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
	Pontardawe	12,333	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
	Port Talbot	37,276	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
	Abertawe	179,485	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
	Cilâ Uchaf	1,331	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
	Ystradgynlais	10,248	Cyngor Sir Powys

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Wrecsam		65,692	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
	Bradley	1,323	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
	Rhostyllen	2,766	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
	Wrecsam	61,603	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Bwcle		63,576	Cyngor Sir y Fflint
	Bwcle	19,639	Cyngor Sir y Fflint
	Cei Conna	16,774	Cyngor Sir y Fflint
	Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy	2,134	Cyngor Sir y Fflint
	Northop Hall	1,530	Cyngor Sir y Fflint
	Sandycroft	6,724	Cyngor Sir y Fflint
	Shotton	16,775	Cyngor Sir y Fflint
Tonypandy		62,545	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Porth	14,648	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Rhondda	13,333	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Tonypandy	17,789	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Treherbert	5,440	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Treorci	7,694	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Pendyrus	3,641	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Pen-y-bont ar Ogwr		58,380	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Pen-y-bont ar Ogwr	46,757	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Sarn	10,805	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Trelales	818	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Barri		54,673	Cyngor Bro Morgannwg
Llanelli		49,591	Cyngor Sir Gâr
	Llanelli	43,878	Cyngor Sir Gâr
	Llangennech	4,324	Cyngor Sir Gâr
	Pwll	1,389	Cyngor Sir Gâr
Y Rhyl/Prestatyn		46,267	Cyngor Sir Ddinbych
	Dyserth	2,269	Cyngor Sir Ddinbych
	Melyd	2,066	Cyngor Sir Ddinbych
	Prestatyn	16,783	Cyngor Sir Ddinbych
	Y Rhyl	25,149	Cyngor Sir Ddinbych
Merthyr Tudful		43,820	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Bae Colwyn		34,284	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Bae Colwyn	29,405	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Bae Penrhyn	4,432	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Penrhyn-side	447	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Glyn Ebwy		33,068	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
	Y Blaenau	4,808	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
	Brynmaur	5,530	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
	Glyn Ebwy	18,095	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
	Nantyglo	4,635	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Aberdâr		31,135	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Aberdâr	29,748	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Fernhill	1,387	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Fflint		26,442	Cyngor Sir y Fflint
	Y Fflint	14,907	Cyngor Sir y Fflint
	Gorsedd	391	Cyngor Sir y Fflint
	Treffynnon	9,808	Cyngor Sir y Fflint
	Walwen	1,336	Cyngor Sir y Fflint
Rhosllannerchrugog		25,362	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych
	Cefn-Mawr	7,051	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
	Rhosllannerchrugog	13,501	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
	Rhiwabon	3,357	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
	Trefor	1,453	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Rhydaman		23,709	Cyngor Sir Gâr
	Rhydaman	7,945	Cyngor Sir Gâr
	Pen-y-groes	5,717	Cyngor Sir Gâr
	Penybanc	1,126	Cyngor Sir Gâr
	Saron	867	Cyngor Sir Gâr
	Y Tymbl	4,302	Cyngor Sir Gâr
	Tycroes	3,752	Cyngor Sir Gâr
Pentre'r Eglwys		23,277	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Beddau	8,236	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Pentre'r Eglwys	13,783	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Efail Isaf	1,258	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Maesteg		21,001	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Croeserw	1,569	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Cymer	544	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
	Maesteg	18,888	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Gorseinon		20,581	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
	Gorseinon	15,757	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
	Casllwchwr	4,824	Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Aberystwyth		18,749	Cyngor Sir Ceredigion
	Aberystwyth	18,093	Cyngor Sir Ceredigion
	Llanbadarn Fawr	656	Cyngor Sir Ceredigion
Bae Cinmel/Abergele		18,705	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Abergele	9,208	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Bae Cinmel	9,497	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bangor		17,988	Cyngor Gwynedd
Cas-gwent		16,169	Cyngor Sir Fynwy
Caerfyrddin		15,854	Cyngor Sir Gâr
Porthcawl		15,672	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Llandudno		15,371	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Tredegar		14,855	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Y Fenni		14,651	Cyngor Sir Fynwy
	Y Fenni	13,423	Cyngor Sir Fynwy
	Llanffwyst	1,228	Cyngor Sir Fynwy
Hwlfordd		14,596	Cyngor Sir Benfro
Llantrisant		14,422	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Brynsadler	1,158	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
	Llantrisant	13,264	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Llanilltud Fawr		14,384	Cyngor Bro Morgannwg
	Llanmaes	403	Cyngor Bro Morgannwg
	Llanilltud Fawr	8,427	Cyngor Bro Morgannwg

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Y Pîl		13,701	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Aberdaugleddau		13,582	Cyngor Sir Benfro
Treharris		12,352	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Nelson	4,647	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Treharris	7,705	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Caergybi		11,431	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Drenewydd		11,357	Cyngor Sir Powys
Aberpennar		11,230	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cil-y-coed		11,200	Cyngor Sir Fynwy
Cyffordd Llandudno		11,109	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Bryn Pydew	451	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Cyffordd Llandudno	10,658	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Abertyleri		10,946	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Trefynwy		10,110	Cyngor Sir Fynwy
Yr Wyddgrug		10,058	Cyngor Sir y Fflint
Doc Penfro		9,753	Cyngor Sir Benfro
Caernarfon		9,730	Cyngor Gwynedd
	Caethro	237	Cyngor Gwynedd
	Caernarfon	9,493	Cyngor Gwynedd
Tonyrefail		9,317	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Pencoed		9,166	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Pontarddulais		9,073	Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Sir Gâr
Caerleon		8,747	Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Rhymni		8,537	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Pontlotyn	1,924	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Rhymni	5,151	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Dinbych		8,514	Cyngor Sir Ddinbych
Porth Tywyn		8,310	Cyngor Sir Gâr
	Porth Tywyn	6,156	Cyngor Sir Gâr
	Pen-bre	2,154	Cyngor Sir Gâr
Aberhonddu		8,250	Cyngor Sir Powys
Penfro		7,552	Cyngor Sir Benfro
Glynrhedynog		7,338	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Hirwaun		7,247	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Brynnau/Llanharan		6,686	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Abertridwr		6,504	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Rhws		6,160	Cyngor Bro Morgannwg
Abercynon		5,983	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Brychdyn		5,974	Cyngor Sir y Fflint
Y Trallwng		5,948	Cyngor Sir Powys

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Gwndy/Magwyr		5,914	Cyngor Sir Fynwy
Coedpoeth		5,723	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwaun-Cae-Gurwen/ Brynaman		5,692	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Gâr
	Brynaman	2,608	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Gâr
	Gwaun-Cae-Gurwen	3,084	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Gâr
Blaenafon		5,647	Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cwm Ogwr/ Nant-y-moel		5,461	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Nant-y-moel	2,344	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Cwm Ogwr	3,117	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Rhuthun		5,461	Cyngor Sir Ddinbych
Glyn-nedd		5,419	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
	Blaengwrach	1,141	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
	Glyn-nedd	4,278	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cwmafan		5,336	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Llandrindod		5,309	Cyngor Sir Powys
Aberteifi		5,301	Cyngor Sir Benfro a Chyngor Sir Ceredigion
	Aberteifi	4,184	Cyngor Sir Ceredigion
	Llandudoch	1,117	Cyngor Sir Benfro

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Gresford		5,010	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Porthaethwy		4,958	Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni		4,864	Cyngor Sir Ynys Môn
Bethesda		4,735	Cyngor Gwynedd
	Bethesda	3,799	Cyngor Gwynedd
	Rachub	936	Cyngor Gwynedd
Hope		4,706	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint
	Hope	4,284	Cyngor Sir y Fflint
	Sydallt	422	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Dinbych-y-pysgod		4,696	Cyngor Sir Benfro
Llai		4,681	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Hendreforgan/ Gilfach Goch		4,395	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Gilfach Goch	1,920	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
	Hendreforgan	2,475	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Glanaman		4,384	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Gâr
Pontycymer		4,288	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Tredegar Newydd		4,208	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Pwllheli		4,076	Cyngor Gwynedd

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Glyncoch		4,020	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Waun		4,007	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Conwy		3,873	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Y Bont-faen		3,804	Cyngor Bro Morgannwg
Llanbradach		3,746	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Rhuddlan		3,709	Cyngor Sir Ddinbych
Neyland		3,708	Cyngor Sir Benfro
Blaenau Ffestiniog		3,662	Cyngor Gwynedd
Llanfairfechan		3,637	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Penyffordd		3,554	Cyngor Sir y Fflint
Aberfan		3,547	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Ynysybwl		3,503	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Murton		3,500	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Llangollen		3,466	Cyngor Sir Ddinbych
Abergwaun		3,419	Cyngor Sir Benfro
Saundersfoot		3,361	Cyngor Sir Benfro
	New Hedges	594	Cyngor Sir Benfro
	Saundersfoot	2,767	Cyngor Sir Benfro
Llanelwy		3,355	Cyngor Sir Ddinbych
Llanrwst		3,323	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Amlwch		3,211	Cyngor Sir Ynys Môn
Llanfair Pwllgwyngyll		3,107	Cyngor Sir Ynys Môn

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Tywyn		3,097	Cyngor Gwynedd
Maerun		3,054	Cyngor Dinas Casnewydd
	Castleton	735	Cyngor Dinas Casnewydd
	Maerun	2,319	Cyngor Dinas Casnewydd
Llanharri		3,035	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bro Morgannwg
Trefyclo		3,007	Cyngor Sir Powys
Llanheledd		2,990	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Porthmadog		2,981	Cyngor Gwynedd
Llanbedr Pont Steffan		2,970	Cyngor Sir Ceredigion
Llanidloes		2,929	Cyngor Sir Powys
Brynbuga		2,834	Cyngor Sir Fynwy
Llanfair-ym-Muallt/ Llanelwedd		2,829	Cyngor Sir Powys
Llandybie		2,813	Cyngor Sir Gâr
Cydweli		2,782	Cyngor Sir Gâr
Cwm		2,739	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Dolgellau		2,688	Cyngor Gwynedd
Llanddulas/ Mynydd Marian		2,674	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Llanddulas	1,268	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Llysfaen	330	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
	Mynydd Marian	1,076	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Sanclêr		2,663	Cyngor Sir Gâr
	Pwlltrap	674	Cyngor Sir Gâr
	Sanclêr	1,989	Cyngor Sir Gâr
Penmaenmawr		2,535	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Creigiau		2,380	Cyngor Dinas Caerdydd
Machen		2,362	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Fali		2,361	Cyngor Sir Ynys Môn
Cwmfelinfach/ Ynysddu		2,342	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Cwmfelinfach	1,383	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
	Ynysddu	959	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Abermaw		2,315	Cyngor Gwynedd
Pentyrch		2,287	Cyngor Dinas Caerdydd
Y Felinheli		2,284	Cyngor Gwynedd
Coed-Llai		2,282	Cyngor Sir y Fflint
Yr Orsedd		2,279	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Narberth		2,265	Cyngor Sir Benfro
Gilwern		2,263	Cyngor Sir Fynwy
Bettws		2,253	Cyngor Dinas Casnewydd
Benllech		2,236	Cyngor Sir Ynys Môn
Machynlleth		2,235	Cyngor Sir Powys
Blaendulais		2,123	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Tanyfron		2,090	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ardal ddynodedig	Aneddiadau wedi eu cynnwys yn yr ardal ddynodedig	Poblogaeth	Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am aneddiadau yn yr ardal ddynodedig
Resolfen		2,068	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Llanymddyfri		2,065	Cyngor Sir Gâr
Crughywel		2,063	Cyngor Sir Powys
Llanandras		2,056	Cyngor Sir Powys
Southgate		2,004	Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Llofnodwyd gan.....

Edwina Hart MBE CStJ AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 2014

Nodweddion i'w dangos ar y Map Llwybrau Presennol

Mae angen i'r nodweddion isod sy'n perthyn i lwybrau teithio llesol gael eu dangos ar y mapiau llwybrau presennol. Bydd y nodweddion yn cael eu harolygu yn yr arolwg cychwynnol sydd i'w gyflawni gan Sustrans.

- ardal i gerddwyr;
- ardal i gerddwyr lle caniateir beicio;
- ardaloedd rhannu gofod;
- llwybr troed di-draffig;
- llwybr beicio di-draffig;
- llwybr rhannu defnydd di-draffig;
- llwybr di-draffig ar wahân;
- llwybr beicio ar y ffordd;
- strydoedd unffordd;
- ffordd heb bafin;
- ffyrdd lle na chaniateir beicio;
- croesfannau i gerddwyr;
- croesfannau i feicwyr
- croesfannau rhannu defnydd;
- croesfannau rheilffordd.

Yn ogystal, dylai'r mapiau ddangos lle mae unrhyw un o'r nodweddion isod yn berthnasol i'r darnau seilwaith hyn:

- graddiant serth;
- heb ei oleuo;
- dim mynediad ar adegau penodol (e.e. caeedig wedi nos);
- rhwystrau mynediad (e.e. k-gate, camfeydd, bolardiau, grisiau) sy'n atal mynediad llawn i'r seilwaith;
- mae'r llwybr yn gulach na'r lleiafswm lled a nodir yn y Canllawiau Dylunio.